

# Adolygiad Gwella Ansawdd

Prifysgol Fetropolitan Caerdydd

Yr Adroddiad Technegol

Ionawr 2021



## Cynnwys

<b>Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd</b> .....	<b>1</b>
<b>Yr adolygiad yma</b> .....	<b>1</b>
<b>Ynglŷn â'r adroddiad hwn</b> .....	<b>1</b>
<b>Y beirniadaethau cyffredinol am Brifysgol Metropolitan Caerdydd</b> .....	<b>2</b>
1 Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad .....	3
2 Gwella profiad dysgu'r myfyrwyr .....	7
3 Cefnogi gwelliant mewn dysgu ac addysgu .....	14
4 Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academiaidd .....	18
5 Darpariaeth gydweithredol.....	24

## Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd

Mae gwefan QAA yn esbonio sut y gwneir yr [Adolygiad Gwella Ansawdd](#) ac mae ganddi ddolenni at y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd a dogfennau defnyddiol eraill.<sup>1</sup> Mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd am yr [Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch \(QAA\)](#).<sup>2</sup>

## Yr adolygiad yma

Dyma Adroddiad Technegol yr Adolygiad Gwella Ansawdd a weithredwyd gan QAA ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Roedd yr Ymweliad Adolygu wedi ei drefnu'n wreiddiol ar gyfer mis Mai 2020. Yn y cyfamser cafwyd y cyfnod clo cenedlaethol yn sgil pandemig COVID-19, ac felly cafodd yr Ymweliad Adolygu ei ohirio. Mewn trafodaeth gyda'r Brifysgol a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, aildrefnwyd yr Ymweliad Adolygu ar gyfer mis Rhagfyr 2020 yn gyntaf, ac yna ar gyfer 18-25 Ionawr 2021. Gwnaeth QAA rai addasiadau i'r broses Adolygiad Gwella Ansawdd oedd yn angenrheidiol oherwydd parhad y pandemig. Y mwyaf nodedig o'r rhain oedd bod yr Ymweliad Adolygu wedi ei weithredu'n gyfan gwbl ar-lein. Gweithredwyd yr adolygiad gan dîm o bum adolygwr:

- Yr Athro John Baldock
- Ms Tessa Counsell
- Yr Athro Diane Meehan
- Dr Osian Rees
- Mr Matthew Kitching (adolygwr sy'n fyfyrwr).

Cyn yr ymweliadau adolygu, cyflwynodd y darparwr ddogfen hunanwerthuso (y Dadansoddiad Hunanwerthuso), Adroddiad Newidiadau, Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw - sy'n cynnwys ystod o ddeunyddiau am drefniadau'r darparwr i reoli safonau academiaidd ac ansawdd - ac, yn Hydref 2020, Diweddariad Adroddiad Newid.

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Yn yr adroddiad hwn, mae tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd yn rhoi eu beirniadaeth mewn perthynas â:

- gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol
- gofynion sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd yng Nghymru.

Gallwch weld y beirniadaethau ar dudalen 2, ac mae canfyddiadau manwl yr adolygiad yn dilyn y rheiny mewn paragraffau wedi eu rhifo.

Mae Adroddiad Technegol yn nodi barn tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd o dan bob un o benawdau'r adroddiad. Mae Adroddiad Canlyniadau byrrach yn nodi prif ganfyddiadau'r Adolygiad Gwella Ansawdd i gynulleidfa ehangach. Mae'r [Adroddiad Canlyniadau](#) ar gyfer yr adolygiad hwn ar gael ar wefan y QAA.<sup>3</sup>

---

<sup>1</sup> Rhagor o wybodaeth am yr Adolygiad Gwella Ansawdd: [www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/y-mathau-o-adolygiad/adolygiad-gwella-ansawdd](http://www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/y-mathau-o-adolygiad/adolygiad-gwella-ansawdd)

<sup>2</sup> Rhagor o wybodaeth am QAA: [www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-ni](http://www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-ni)

<sup>3</sup> Yr Adroddiad Canlyniadau: [www.qaa.ac.uk/reviewing-higher-education/quality-assurance-reports/Cardiff-Metropolitan-University](http://www.qaa.ac.uk/reviewing-higher-education/quality-assurance-reports/Cardiff-Metropolitan-University)

Mae Adroddiadau Technegol yr Adolygiad Gwella Ansawdd wedi eu bwriadu'n bennaf i'r darparwyr dan sylw, ac i ddarparu sail gwybodaeth ar gyfer cynhyrchu adroddiadau thematig sy'n nodi canfyddiadau ar draws ystod o ddarparwyr.

## **Y beirniadaethau cyffredinol am Brifysgol Metropolitan Caerdydd**

Ar sail yr wybodaeth a gyflwynwyd, mae'r tîm adolygu'n barnu hyn:

- Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn bodloni gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol.
- Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn bodloni gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Mae hon yn feirniadaeth gadarnhaol, sy'n golygu bod gan y darparwr drefniadau cadarn i sicrhau safonau academiaidd, i reoli ansawdd academiaidd ac i wella ansawdd profiad y myfyrwyr

# **1 Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad**

## **1.1 Gwybodaeth gryno am y darparwr, megis fframwaith strategol a strwythur cyfundrefnol**

1 Gall y Brifysgol olrhain ei gwreiddiau yn ôl i 1865 pan agorodd yr Ysgol Gelf am y tro cyntaf yn yr Hen Lyfrgell Rydd yng Nghaerdydd. Yn ystod yr 20fed ganrif, unodd nifer o golegau yng Nghaerdydd - a arbenigai mewn hyfforddi athrawon, technoleg, astudiaethau morwrol, masnach a thechnoleg bwyd - i ffurfio Athrofa Addysg Uwch De Morgannwg i ddechrau, a ddaeth yn Athrofa Addysg Uwch Caerdydd ac yna, ym 1996, cafodd ei hail-enwi yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd (APCC). Enillodd APCC bwerau dyfarnu graddau yn 2009. Yn sgil diddymu Prifysgol Cymru, ailenydd y Brifysgol yn Brifysgol Metropolitan Caerdydd (Met Caerdydd/CMU) yn 2011.

2 Mae'r Brifysgol yn ystyried ei hun yn brifysgol fyd-eang sydd wedi'i gwreiddio yng Nghymru a'i diben yw darparu addysg o ansawdd uchel sy'n cael effaith sylweddol, sy'n seiliedig ar ymarfer ac sydd â chydabyddiaeth broffesiynol i fyfyrwyr o bob cwr o'r byd. Ei gweledigaeth yw 'galluogi'r holl fyfyrwyr i gyflawni eu llawn botensial i wneud cyfraniadau ar lefel graddedigion a chynhyrchu twf economaidd a chydlyniant cymdeithasol cynaliadwy i Gaerdydd, Cymru a'r byd yn ehangach'. Mae'r cynllun strategol cyfredol yn cynnwys rhaglen o saith blaenoriaeth, wedi'u cefnogi gan strategaethau galluogi, yn seiliedig ar y pedwar o werthoedd craidd sydd ganddi, sef Arloesedd, Creadigrwydd, Rhyddid ac Amrywiaeth.

3 Mae portffolio academaidd y Brifysgol yn canolbwyntio ar ddarpariaeth sy'n seiliedig ar ymarfer ac sydd â chydabyddiaeth broffesiynol ym meysydd celf a dylunio, addysg a gwasanaethau cyhoeddus, busnes a rheolaeth, chwaraeon a gwyddorau iechyd, a thechnolegau digidol, data a dylunio, gan gynnwys darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg sy'n dal i dyfu. Datblygir rhaglenni sy'n gydnaws ag amcanion ymchwil, arloesi a mentergarwch y Brifysgol ac er mwyn diwallu'r galw gan fyfyrwyr ac anghenion cyflogwyr.

## **1.2 Cyfansoddiad poblogaeth y myfyrwyr, a thueddiadau allweddol a newidiadau a ddisgwyllir o fewn y boblogaeth honno, gan gynnwys gwybodaeth am gadwraeth, cynnydd a chanlyniadau**

4 Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd wedi'i threfnu yn bum ysgol academaidd: Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd (CSAD); Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd (CSESP); Ysgol Reolaeth Caerdydd (CSM); Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd (CSSHS); ac Ysgol Dechnolegau Caerdydd (CST). Yn 2018-19, roedd y Brifysgol wedi ymrestru cyfanswm o 19,992 o fyfyrwyr. Roedd 10,663 o fyfyrwyr (9,153 FTE) wedi'u lleoli yng Nghymru a 173 o'r rheiny yn fyfyrwyr oedd yn astudio mewn sefydliadau partner yng Nghymru. Roedd gan y Brifysgol hefyd 9,329 o fyfyrwyr wedi'u lleoli mewn 17 o sefydliadau partner y tu allan i Gymru. Myfyrwyr israddedig ydy 80% o'r ymrestrïadau, gyda 19% o'r myfyrwyr wedi ymrestru ar gyfer graddau uwch a addysgir a'r 1% sy'n weddill ar raddau ymchwil. Myfyrwyr llawn-amser ydy 86% o'r ymrestrïadau gyda'r 14% sy'n weddill yn fyfyrwyr rhan-amser.

5 Mae gan y Brifysgol broffil ehangu mynediad cryf gyda 40% o'i phoblogaeth o'r Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD40). Mae CMU yn monitro pob agwedd o ddargadw a chynnydd, yn cynnwys gwell dealltwriaeth trwy ddangosfyrddau data ac adrodd rheolaidd i bwyllgorau perthnasol.

### **1.3 Sylwadau ar y ffordd y mae'r darparwr yn cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol**

6 Mae'r Brifysgol yn delio gyda chyfres o 'fesurau cenedlaethol' a nodwyd gan y Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Mae Cynllun Ffioedd 2018-19 yn mynegi'r ffioedd addysgu ar gyfer ei ddarpariaeth ac mae wedi ei fframio yng nghyd-destun darparu cefnogaeth dargedig i sicrhau maes chwarae gwastad ar gyfer dysgwyr a dysgwyr allai fod yn anodd eu cyrraedd o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch, yn cynnwys y rhai gyda nodweddion gwarchoddedig a'r rhai sydd â phrofiad o anfantais economaidd-gymdeithasol ac/neu ddaearyddol, yn arbennig mewn ardaloedd o anfantais economaidd yn Ne Cymru. Mae profiad y myfyriwr, yn cynnwys gwella taith y myfyriwr, yn ffocws allweddol; mae cynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn nod strategol. Mae cyflogadwyedd yn flaenoriaeth strategol ac mae CMU yn cynnig cefnogaeth gref ar gyfer entrepreneuriaeth, sydd wedi ei fewnosod yn y cwricwlwm a'i gryfhau trwy fewnbwn o'r Ganolfan Entrepreneuriaeth ar ei Gampws Llandaf.

7 Mae'r Brifysgol yn canolbwyntio'n benodol ar fynd i'r afael â heriau lleol a byd-eang trwy gyfrannu at ddatblygiad twf economaidd cynhwysol ac amgylchedd cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn unol â *Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.

### **1.4 Sylwadau ar y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad, yn cynnwys y ffordd y mae'r darparwr a'i fyfyrwyr wedi cydweithio mewn partneriaeth i baratoi ar gyfer yr adolygiad**

8 Yn dilyn arweiniad cychwynnol gan yr Uwch Gynghorydd Ansawdd yn y Gyfarwyddiaeth Hybu Ansawdd (CGA), sefydlodd y Brifysgol Fwrdd Prosiect dan arweiniad y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymgysylltu â Myfyrwyr) yn gweithio mewn partneriaeth trwy gyfarfodydd misol gyda'r Undeb Myfyrwyr a Llais y Myfyrwyr a'r Arweinydd Ymgysylltu. Mabwysiadodd CMU ddull golegaidd i gyflwyno dogfennaeth ac fe gafodd yr Adroddiad Newid ei ysgrifennu gan ymgynghorydd gyda mewnbwn gan aelodau allweddol staff.

9 Gofynnodd y Brifysgol i'r tîm adolygu ystyried pum maes i ganolbwyntio arnynt, a ddewiswyd i adlewyrchu meysydd gwella presennol ac yn y dyfodol: Ymgysylltu â Myfyrwyr, ac Ymgysylltu Dinesig a Chyfrifoldeb Cymdeithasol (y ddau yn gwneud defnydd o strategaeth thematig eponymaidd y Brifysgol); a Phartneriaeth (a ddaw yn rhannol o *Strategaeth Ryngwladol Edrych Tuag Allan*) CMU. Dewiswyd dau faes pellach gan y Brifysgol fel meysydd ble roedd heriau wedi'u nodi: Defnyddio Data i Hybu Ansawdd; a Chyflogadwyedd Graddedigion.

### **1.5 Crynodeb byr o natur a rhesymeg meysydd ffocws penodol yr adolygiad yn yr hunanwerthusiad**

10 Cynigiodd y Brifysgol bum maes i ganolbwyntio arnynt, a ddewiswyd i adlewyrchu meysydd gwella sydd ar gamau gwahanol yn eu datblygiad: Ymgysylltiad Myfyrwyr; Partneriaeth; Ymgysylltu Dinesig a Chyfrifoldeb Cymdeithasol; Defnyddio Data i Yrru Ansawdd; a Chyflogadwyedd Graddedigion.

11 Mae ymgysylltu â myfyrwyr yn ffocws allweddol i gynllun strategol y Brifysgol. Mae CMU yn ymroddedig i fuddsoddi yn nhaith y myfyriwr i wella profiad ei fyfyrwyr trwy ffocws ar wella dysgu, addysgu a chefnogaeth i fyfyrwyr ar y campws, gan gysylltu â'i golegau partner yng Nghymru ac integreiddio ei bartneriaid byd eang. Mae partneriaeth yn elfen allweddol yn y Cynllun Strategol ac mae CMU yn ymgysylltu gyda nifer o bartneriaid a ystyrir i fod yn allweddol i gyflawni ei uchelgeisiau addysg drawswladol, ymchwil, ymgysylltu dinesig, datblygu cymunedol ac arloesi. Mae Ymgysylltu Dinesig a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yn

gryfder allweddol i CMU, gyda'r strategaeth yn seiliedig ar bedair colofn: bod yn ganolog i'r gymuned; trawsnewid bywydau; grymuso dinasyddion egniol; a thwf a ffyniant.

12 Dewiswyd dau faes ffocws pellach fel meysydd ble roedd heriau wedi'u nodi. Er yr ystyrir systemau yn CMU i fod yn aeddfed ac wedi eu deall yn dda, ceisia'r Brifysgol alluogi staff a myfyrwyr i elwa o well holistig o'r data sydd ar gael ar draws y sefydliad i hybu gwneud penderfyniadau ac fel cyfrwng ar gyfer gwelliannau. Mae'r Brifysgol yn datblygu ei agenda Cyflogadwyedd Graddedigion i alluogi myfyrwyr i gael gwell dealltwriaeth o'u sgiliau trosglwyddadwy ac i ehangu gwybodaeth am gyfleoedd sydd ar gael iddynt tu hwnt i'w pwnc gradd a thu hwnt i farchnadoedd llafur lleol a thraddodiadol.

## **1.6 Crynodeb o'r camau dilyniant a gymerwyd gan y darparwr yn dilyn yr adolygiad blaenorol**

13 Arweiniodd yr adolygiad sefydliadol QAA blaenorol (model hybrid) yn 2014 ar bum argymhelliad a nifer o feysydd o ymarfer da. Datblygodd y Brifysgol Gynllun Gweithredu mewn ymgynghoriad gyda staff a Swyddogion Gweithredol Undeb y Myfyrwyr. Cafodd hyn ei fonitro trwy'r Bwrdd Ansawdd a Safonau Academaidd (AQSB) ac fe gymeradwywyd y cynllun wedi ei ddiweddarau gan Undeb y Myfyrwyr a'r Is-ganghellor ym Mai 2015. Cymerwyd y camau canlynol.

14 Yr argymhelliad cyntaf oedd y dylid sicrhau bod polisiau ac arweiniad ar adborth ffurfiannol o asesiadau'n cynnwys triniaeth gyfartal o fersiynau drafft o aseiniadau gwaith cwrs ymhob darpariaeth a addysgir. Trwy ei Grŵp Gweithredu Sicrwydd Ansawdd (QAAG) sy'n cynnwys cynrychiolaeth i fyfyrwyr, fe nododd y Brifysgol broses gyfiawn a gymeradwywyd gan y Bwrdd Dysgu ac Addysgu (LTB) blaenorol, ac yn dilyn hynny gwnaethpwyd addasiadau perthnasol i Bolisi Asesu ac Adborth y Brifysgol a'r *Llawlyfr Academaidd, Rhifyn 1 Adran 4*. Datblygwyd canllaw a'i ddarparu i staff yn y Brifysgol hefyd ac mewn partneriaethau cydweithredol. Cymeradwywyd y newidiadau trwy'r Bwrdd Ansawdd a Safonau Academaidd.

15 Galwodd yr ail argymhelliad am adolygu a gwneud yn eglur y gweithdrefnau cwyno ar gyfer darpariaeth gydweithredol a sicrhau bod y rhain yn cael eu cyfathrebu'n gyson ac yn gywir i fyfyrwyr. Diweddarwyd dogfennaeth berthnasol i sicrhau cysondeb ar draws cyhoeddiadau fel llawlyfrau a dogfennau eraill yn ymwneud â chwynion, a chafodd cymedrolwyr a thiworiaid cyswllt y dasg o fonitro cywirdeb a chysondeb yr wybodaeth a ddarparwyd. Ar wahân i'r gweithredoedd hyn, canfu tîm yr arolwg bod angen eglurder o hyd i sicrhau y gall holl staff partneriaid a myfyrwyr gael mynediad hwylus i weithdrefnau'r Brifysgol a'u deall yn llawn (gweler paragraff 111).

16 Y trydydd argymhelliad oedd bod angen defnyddio dull cyson ledled y Brifysgol o hyfforddi, cefnogi a monitro myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n gwneud gwaith addysgu ac asesu. Yn wreiddiol, fe ddatblygwyd fframwaith hyfforddi a'i dosbarthu; roedd hyn yn nodi gofynion craidd a dewisol ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n cyflawni addysgu. O ganlyniad, datblygodd y Brifysgol bolisi ar fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n addysgu, dyddiedig Tachwedd 2019. Canfu tîm yr adolygiad bod angen eglurder pellach i sicrhau bod unrhyw fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n addysgu wedi cael hyfforddiant (gweler paragraff 37).

17 Y pedwerydd argymhelliad oedd y dylid sicrhau bod yr holl drefniadau cydweithredol a threfniadau trosglwyddo'n derbyn sylw mewn cytundebau rhyng-sefydliadol a gyflawnwyd, a lofnodwyd ac sy'n gyfredol. Sicrhaodd y Brifysgol bod y ddogfennaeth oedd yn weddill wedi ei llofnodi ac archifo a bod prosesau monitro yn fwy trylwyr. Yr argymhelliad olaf oedd y dylid sicrhau eglurder dogfennaeth ffurfiol mewn perthynas â threfniadau trosglwyddo. Mewn ymateb i'r argymhelliad hwn rhoddwyd eglurhad ar y paramedrau ar

gyfer trosglwyddo a darparu hyfforddiant i'r staff perthnasol. Canfu tîm yr adolygiad bod y gweithredoedd hyn yn briodol.

### **1.7 Manylion cyfrifoldebau'r darparwr am y ddarpariaeth addysg uwch y mae'n ei darparu ar ran y cyrff dyfarnu graddau y mae'n gweithio mewn partneriaeth â nhw**

18 Mae gan y Brifysgol ei phwerau dyfarnu graddau ei hun. Mae hefyd yn cynnig darpariaeth diploma cenedlaethol uwch dan drwydded gan Pearson ac yn cyflwyno Adroddiad Adolygiad Sefydliadol Blynyddol (IRR); ni nododd yr adroddiadau a gyflwynwyd ar gyfer 2017-18 a 2018-19 unrhyw faterion.



## 2 Gwella profiad dysgu'r myfyrwyr

### 2.1 Y dull strategol o wella profiad y myfyrwyr

19 Mae dull y darparwr o wella profiad y myfyriwr wedi ei lywodraethu gan ei Strategaeth Ymgysylltu â Myfyrwyr. Crëwyd y Strategaeth yn 2018, ac mae wedi ei alinio'n agos gyda Chynllun Strategol cyffredinol y sefydliad ac amcanion y Cynllun Ffioedd a Mynediad. Cynlluniwyd y strategaeth i hyrwyddo'r tri nod craidd yma - cryfhau gweithio mewn partneriaeth gyda myfyrwyr; mewnosod dull ble mae'r myfyriwr yn ganolog i gyflenwi gwasanaeth; gwella'r amgylchedd corfforol, cymdeithasol, diwylliannol a hamdden - ac mae wedi ei strwythuro yn bedwar maes thematig: cwricwlwm, portffolio, cyd-gwricwlwm ac amgylchedd. Y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymgysylltu â Myfyrwyr) sy'n gyfrifol am oruchwylio gweithrediad y Strategaeth. Mae rhwydwaith o staff allweddol a thimau'r brifysgol, yn cynnwys y Gyfarwyddiaeth Gwella Ansawdd (CGA) a Deoniaid Cysylltiol Ymgysylltu â Myfyrwyr (ADSEs), yn gweithio'n agos gydag Undeb y Myfyrwyr ac maent yn allweddol i weithrediad y strategaeth.

20 Mae'r Strategaeth wedi ei hategu gan y Polisi Ymgysylltu â Myfyrwyr a gymeradwywyd yn 2019, yn dilyn cyfnod ymgynghori gyda staff a myfyrwyr. Mae'r polisi yn cynnwys saith egwyddor arweiniol ar gyfer ymgysylltu â myfyrwyr, yn cynnwys: y bydd dull y Brifysgol yn canolbwyntio ar lwyddiant; bydd yr holl raglenni a ddysgir yn cynnwys cyfleoedd ymgysylltu cyfartal i bawb; fe ddefnyddir data ymgysylltu â myfyrwyr i gefnogi addysgu myfyrwyr; ac fe gedwir mewn cysylltiad rheolaidd gyda phob myfyriwr. Canfu'r tîm fod y Brifysgol yn sicrhau cynnydd da o ran ymgysylltu â myfyrwyr ac ar lwybr positif. Mae gwaith yn erbyn yr egwyddorion mewn meysydd penodol - er enghraifft, ymsefydlu a thiwora personol - wedi datblygu'n dda ac mae'r myfyrwyr yn bositif amdano. Mae'r Brifysgol hefyd yn cydnabod er gwaethaf y cynnydd, bod angen gwneud mwy - er enghraifft o ran defnydd o ddata, a oedd yn faes datblygu a nodwyd yn rhan o'r adolygiad hwn, ac fe gefnogir y safbwynt hwnnw gan gasgliadau'r tîm (gweler adran 4.6).

21 Yn ogystal i'r gwelliannau o ran tiwora personol, ymsefydlu a chydweithredu ynghylch y Polisi Ymgysylltu â Myfyrwyr, ymysg enghreifftiau eraill o ddull sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr i ddarparu gwasanaethau a ddarperir gan y Brifysgol mae cyd-gynllunio'r cwricwlwm trwy ddatblygiad y rhaglen a phrosesau cymeradwyo a datblygu dadansoddeg ac amserlennu personol i ddysgwyr.

22 Mae Siarter Myfyrwyr wedi ei sefydlu hefyd, sy'n amlinellu ymroddiadau'r brifysgol a myfyrwyr parthed y gymuned ddysgu, llais yrwyr, cefnogaeth a lles, cyfathrebu a datblygiad personol a phroffesiynol. Parthed cyfathrebu, nododd cynrychiolwyr myfyrwyr y gallai datblygiad polisi gynnwys nifer ehangach o fyfyrwyr ac y gwellid sicrhau gwelliannau o ran cau'r ddolen adborth - er enghraifft, o ran gwerthuso modylau. Ond ar y cyfan, canfu'r tîm fod y fframwaith strategol ar gyfer gwella profiad y myfyriwr yn gyffredinol yn briodol, gan gynnwys ymgynghori arwyddocaol gyda myfyrwyr, a'i fod wedi ei adolygu'n rheolaidd.

### 2.2 Y dull o weithio mewn partneriaeth â'r myfyrwyr

23 Yn ogystal â bod yn nod greiddiol yn y Strategaeth Ymgysylltu â Myfyrwyr, mae ymroddiad y Brifysgol i weithio mewn partneriaeth â myfyrwyr hefyd wedi ei ddisgrifio yn y Cytundeb Perthynas rhwng y sefydliad ac Undeb y Myfyrwyr. Mae'r Cytundeb yn pwysleisio pwysigrwydd y bartneriaeth strategol rhwng y ddau sefydliad ac o fabwysiadu dull ble mae'r myfyriwr yn ganolog. Mae'r Cytundeb Perthynas hefyd yn cydnabod y tebygolrwydd bod gan y Brifysgol a'r Undeb wahanol farnau a'r angen i drafod y rhain gyda pharch, dealltwriaeth, didwylledd ac ymddiriedaeth. Cytunodd myfyrwyr, staff a llywodraethwyr fod y bartneriaeth yn un sy'n dilyn y gwerthoedd hynny gan amlaf. Yn ogystal, roedd myfyrwyr a llywodraethwyr yn bositif ynghylch y dialog agored ac adeiladol a geir rhwng myfyrwyr a'r

corff llywodraethu, gan helpu sicrhau y gwneir penderfyniadau yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o brofiad y myfyriwr.

24 Mae gan y sefydliad nifer o bwyllgorau ac adolygiadau sy'n cynnwys myfyrrwyr, gan gynnwys y Pwyllgorau Cyswllt Myfyrrwyr-Staff, Adolygiadau Rhaglen Blynyddol (ARhB) a Dilysu; a phaneli Adolygiadau Cyfnodol. Crynhoir ei ddull o weithio mewn partneriaeth â myfyrrwyr i reoli ansawdd addysgu yn ei Bolisi Cyfranogiad Myfyrrwyr mewn Prosesau Ansawdd, sy'n gosod y dull cyffredinol o sicrhau cyfranogiad myfyrrwyr yn y prosesau ansawdd. Canfyddir myfyrrwyr i gymryd rhan yn y paneli trwy Undeb y Myfyrrwyr ac fe'i penodir gan y Gyfarwyddiaeth Gwella Ansawdd. Mae'r nifer o banelwyr wedi tyfu'n raddol ers 2018-19.

25 Mae'r tîm wedi derbyn enghreifftiau niferus eraill o gydweithredu gyda myfyrrwyr, yn cynnwys yr addewid Amser i Newid Cymru, creu'r Siarter Myfyrrwyr, y Gwobrau Dysgu dan arweiniad Myfyrrwyr, Cynllun Dysgu Cymheiriaid ac Wythnos LlaisMet, a gasglodd adborth gan 1600 o fyfyrwr a hysbysu trafodaethau rhwng Undeb y Myfyrrwyr a'r Deoniaid Cysylltiol Ymgysylltu â Myfyrrwyr.

26 Mae penodiad Deoniaid Cysylltiol Ymgysylltu â Myfyrrwyr ym mhob ysgol, sydd â'r gorchwyl o gyfarwyddo a rheoli gweithrediad prosesau a gweithdrefnau i ddarparu ymgysylltu â myfyrrwyr, yn ddatblygiad diweddar. Canfu'r tîm fod cyflwyno'r Deoniaid ym mhob ysgol wedi cryfhau'r bartneriaeth rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrrwyr. Adroddodd cynrychiolwyr myfyrrwyr fod creu'r swydd wedi rhoi mwy o eglurder o ran llinellau cyfathrebu, wedi galluogi ymatebion amserol ac, yn benodol, wedi cefnogi ymgysylltu a phrofiad y myfyriwr yn ystod y pandemig COVID-19. Felly, mae'r tîm yn **cymeradwyo'r** cyfraniad cryf a wnaed gan y Deoniaid Cysylltiol Ymgysylltiad Myfyrrwyr yn cryfhau ymgysylltiad myfyrrwyr a phartneriaeth rhwng myfyrrwyr a'r Brifysgol.

27 Yn dilyn sefydlu swyddi'r Deoniaid, mae Grŵp Llais y Myfyriwr hefyd wedi ei gyflwyno gan uno'r Deoniaid Cysylltiol, Undeb y Myfyrrwyr, y Gyfarwyddiaeth Gwella Ansawdd ac uned Cyfathrebu'r Brifysgol. Mae'r Grŵp yn adolygu cofnodion Pwyllgorau Cyswllt Myfyrrwyr-Staff i nodi themâu cyffredin ac yn adolygu data arolwg a mathau eraill o adborth gan fyfyrwr. Mae'r sefydliad yn mesur ei gynnydd yn y maes hwn trwy ei Adroddiad Partneriaeth blynyddol, a gyflwynir i'r Pwyllgor Dysgu, Addysgu ac Ymgysylltu â Myfyrrwyr. Mae'r adroddiad ei hun yn gydweithrediad rhwng y Gyfarwyddiaeth Gwella Ansawdd ac Undeb y Myfyrrwyr ac yn rhoi trosolwg o brosiectau ar y cyd a gweithgaredd fel cyfraniad myfyrrwyr i'r Adolygiad Gwella Ansawdd, Cynllun Dysgu Cymheiriaid, Wythnos LlaisMet a'r Digwyddiad Partner Undeb y Myfyrrwyr.

### **2.3 Cydnabod ac ymateb i'r amrywiaeth ym mhoblogaeth y myfyrrwyr, gan gynnwys dulliau o ehangu mynediad, anghenion grwpiau penodol o fyfyrwr, ac ystyried y dull astudio, lefel yr astudio a'r lleoliad astudio**

28 Sefydliar dull y Brifysgol i ehangu mynediad yn y Cynllun Ffioedd a Mynediad. Yn benodol, mae'r tîm Ehangu Mynediad yn targedu dysgwyr o ddau cwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD40), ac yn benodol fyfyrwr o nifer o gefndiroedd lleiafrifol a dan anfantais, yn cynnwys cyn droseddwr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, dynion ifanc o ardaloedd cyfranogiad isel, myfyrrwyr gyda nodweddion gwarchoddedig a myfyrrwyr o gymunedau duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) penodol. Mae recriwtio myfyrrwyr o gefndiroedd cyfranogiad isel wedi bod yn uwchlaw cyfartaledd Cymru a'r Deyrnas Unedig yn gyson.

29 Er mwyn cefnogi ehangu mynediad i waith y Brifysgol, mae amrediad eang o raglenni cysylltiedig wedi eu creu. Mae'r rhain yn cynnwys O'r Gymuned i'r Campws: rhaglen sefydledig o gyrsiau yn gweithio i ymgysylltu oedolion sy'n ddysgwyr heb gymwysterau Lefel

4, Ysgol Haf am ddim dros bythefnos i gyd-fynd ag Wythnos Addysg Oedolion, cyrsiau paratoi ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n gobeithio dilyn Cyrsiau y System Ryngwladol Profion Iaith Saesneg (IELTS), a phartneriaeth gyda CEM Prescoed sy'n cynnwys darparu dau fodiwl achrededig yn y carchar a gweithio gyda gofalwyr a rhai sy'n gadael gofal trwy gysylltu gyda sefydliadau partner i gynnig cyrsiau ar gyfer gofalwyr.

30 I gyd-fynd â gwaith y Brifysgol i gefnogi poblogaeth amrywiol myfyrwyr, mae'r undeb myfyrwyr wedi ehangu ei strwythur cynrychiolaeth trwy recriwtio pum rôl rhan amser newydd, yn cwmpasu themâu allweddol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Iechyd a Lles, Myfyrwyr Rhyngwladol a'r Gymraeg. Bellach mae yna Swyddog Amgylcheddol Rhan-amser yn Undeb y Myfyrwyr. Mae myfyrwyr yn teimlo'n bositif ynghylch y gefnogaeth a dderbyniont gan yr Undeb, ac yn benodol am wasanaethau cefnogaeth y brifysgol. Mae'r sefydliad wedi cymryd nifer o gamau i hybu gweithrediad y systemau tiwtora personol ac roedd myfyrwyr yn cydnabod hyn fel cryfder, yn arbennig o ran hygyrchedd tiwtoriaid. Cadarnhaodd myfyrwyr i'r tîm fod cefnogaeth ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol, ble mae'r Brifysgol wedi cyflawni'n dda yn gyson yn yr Arolwg Baromedr Myfyrwyr Rhyngwladol, yn gynhwysfawr. Mae'r Ganolfan Hyfforddi Saesneg (ELTC) yn cefnogi oddeutu 300 o fyfyrwyr y flwyddyn. Caiff myfyrwyr rhyngwladol gynnig taith o Gaerdydd hefyd ac, ynghyd â myfyrwyr eraill, byddant yn derbyn Pecyn Undeb y Myfyrwyr a chanllaw o'r enw 'Beth i'w Wybod Cyn i chi Fynd'. Mae Gwobr Noddfa Met Caerdydd yn cefnogi ceiswyr lloches trwy ddarparu ildiad llawn o'r ffioedd, pas bws a thaleb cinio dyddiol, ynghyd â chefnogaeth bersonol.

31 Mewn ymateb i'r her o recriwtio myfyrwyr rhan-amser, mae'r Brifysgol wedi sefydlu Canolfan Dysgu Seiliedig ar Waith (CWBL) a fframwaith ar gyfer Cydnabod Dysgu Blaenorol sydd wedi ei gynllunio i gynyddu capasiti'r sefydliad i recriwtio myfyrwyr a hoffai astudio tra'n dal mewn gwaith llawn amser. Mae'r Brifysgol hefyd yn bwriadu dilyn strategaeth fwy rhanbarthol a fydd yn galluogi myfyrwyr i symud ymlaen i a thrwy'r sefydliad.

32 Mae'r Brifysgol wedi nodi angen penodol i roi mwy o amlygrwydd a sylw i fuddiannau myfyrwyr a dysgwyr posibl o gefndiroedd BAME. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau, ble fo angen, y gwneir newidiadau i brosesau ac ymarfer i sicrhau bod myfyrwyr BAME lawn mor debygol â myfyrwyr o grwpiau demograffig eraill i gymryd rhan a llwyddo mewn addysg uwch. Wrth gynnal yr adolygiad, roedd y Brifysgol wedi sefydlu'r data ynghylch cyflawniad myfyrwyr a'r bylchau cyrhaeddiad, ond roedd yn dal yn y broses o gynllunio a gweithredu camau i ddelio â'r mater. Fel y nodwyd mewn rhan arall o'r adroddiad (gweler adran 4), mae tîm yr adolygiad yn cydnabod pwysigrwydd cynnydd parhau o ran defnyddio data i nodi a delio a materion.

33 Canfu'r tîm fod amrywiaeth poblogaeth y myfyrwyr wedi ei ystyried yn ymateb cynhwysfawr y Brifysgol i'r pandemig COVID-19. Fe ystyriwyd sicrhau nad oedd yr un myfyriwr dan anfantais i fod yn flaenoriaeth, ac fe weithiodd y Brifysgol gydag Undeb y Myfyrwyr i sicrhau fod barn myfyrwyr yn flaenllaw wrth wneud penderfyniadau, rhywbeth a werthfawrogwyd yn fawr gan yr Undeb. Er enghraifft, ceisiodd y sefydliad ddsbarthu cyllid adfer CCAUC yn gyflym i ddelio â thlodi digidol ac i ddarparu mynediad at galedwedd cyfrifiadurol. Awgryma'r dystiolaeth bod hyn wedi cael effaith gadarnhaol wrth i arolygon ddangos gwelliant o 10% yn y nifer o fyfyrwyr a ystyriai fod ganddynt fynediad i'r adnoddau priodol rhwng Mehefin a Hydref 2020.

34 Serch llwybr cadarnhaol y gwaith ymgysylltu â myfyrwyr sydd eisoes wedi ei nodi gan y tîm (gweler adran 2.1), ceir heriau o hyd o ran ymgysylltu â myfyrwyr sy'n astudio mewn lleoliadau partner cydweithredol. Er bod y Brifysgol angen i systemau a phrosesau fod yn gymharol mewn sefydliadau partner, a bod Undeb y Myfyrwyr yn darparu nifer o fesurau cefnogaeth ar gyfer myfyrwyr partner, mae ymgysylltu yn amrywio. Nid oedd yr un o'r myfyrwyr fu'r tîm o golegau partner a oedd yn gynrychiolwyr myfyrwyr wedi derbyn hyfforddiant gan y Brifysgol nac ychwaith wedi mynychu Digwyddiad Partner yr Undeb, yr

oedd 11 o fyfyrwyr o nifer o bartneriaid addysg draws-wladol wedi eu mynychu yn 2020. Mae'r Brifysgol yn cydnabod fod y gefnogaeth a dderbynia cynrychiolwyr partner yn amrywio ac yn sylweddoli bod angen gwelliannau pellach. Felly mae'r tîm yn **argymhell** bod trefniadau ar gyfer cefnogi cynrychiolaeth myfyrwyr mewn sefydliadau partner yn cael eu gweithredu yn gyson ac yn effeithiol.

## 2.4 Profiad y myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir a'r myfyrwyr ymchwil

35 Mae gan y sefydliad nifer o fecanweithiau ar waith i gasglu adborth ynghylch profiad y myfyrwyr ôl-raddedig. Mae'r rhain yn cynnwys arolygon allanol a mewnol a chynrychiolaeth myfyrwyr ar Bwyllgorau Graddau Ymchwil y Brifysgol ac Ysgolion, Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi a Phwyllgor Moeseg y Brifysgol. Mae strwythurau ymgysylltu â myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir yn dyblygu'r rhai ar gyfer myfyrwyr israddedig. Cadarnhaodd myfyrwyr i'r tîm eu bod yn teimlo y gallant ddarparu adborth ac y gwrandewir ar eu barn a gweithredu arno.

36 Yn unol â'r adborth o'r Arolwg Profiad Ôl-raddedig a Addysgir (PTES) a'r Arolwg Profiad Ymchwil Ôl-raddedig (PRES), roedd myfyrwyr a addysgir ac ymchwil yn bositif ynghylch y gefnogaeth a gynigir gan y Brifysgol. Yn benodol, canmolwyd darpariaeth llyfrgelloedd a dywedodd myfyrwyr ymchwil eu bod yn teimlo eu bod wedi eu hannog yn weithredol i gymryd rhan mewn grwpiau ymchwil, mynychu seminarau a chyflwyno eu gwaith. Mae'r Brifysgol yn sefydlu gofynion ar gyfer goruchwylio yn y Cod Ymarfer Graddau Ymchwil ac yn cyfathrebu'r rhain trwy'r Llawlyfr Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig. Mae'r Brifysgol yn gofyn am gynnal o leiaf chwe chyfarfod goruchwyliol y flwyddyn. Yn ymarferol, adroddodd y myfyrwyr fod yna gryn hyblygrwydd o ran trefnu cyfarfodydd ac, yn y rhan fwyaf o'r achosion, mae'r myfyrwyr yn cyfarwyddo ffurf a nifer y sesiynau goruchwylio yn seiliedig ar ei anghenion.

37 Roedd canlyniadau ar gyfer PTES 2018 yn dangos lefelau uwch o foddhad ar draws yr holl feysydd thematig o gymharu â 2017. Graddiwyd y Brifysgol yn yr ail chwarterel ar y cyfan, ac roedd ymatebion ar gyfer datblygu sgiliau, asesu a gwybodaeth yn arbennig o gadarnhaol, o gymharu â chyfartaledd y Deyrnas Unedig. Roedd y canlyniadau yn PRES 2020 yn gadarnhaol gan fwyaf. Cynyddodd boddhad cyffredinol i 90% (80.8% yn 2019) ac fe wellodd boddhad ar draws yr holl feysydd yn yr arolwg. Fodd bynnag, mae boddhad gyda 'diwylliant ymchwil', er ei fod wedi codi 5% i 58%, yn dal yn isel ar 2.5% yn is na chyfartaledd y sector. Mae hyn wedi cyfrannu ar ymdrechion i ddarparu mwy o adnoddau ar gyfer myfyrwyr ymchwil. Lansiodd Academi Doethurol ar-lein yn ystod pandemig y coronafeirws, sy'n dod â nifer o adnoddau ynghyd mewn un lleoliad. I gyd-fynd â'r storfa ceir rhith encilion ysgrifennu, digwyddiadau byw a sesiwn galw i mewn dyddiol. Roedd myfyrwyr yn ystyried yr academi newydd i fod yn ddatblygiad positif, ond yn credu y gellid gwneud mwy. Yn yr un modd, mae'r Brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd gwneud mwy i feithrin diwylliant ymchwil, yn arbennig ar gyfer myfyrwyr sy'n cyflawni astudiaethau doethuriaeth arbenigol, ble mae llai o gymuned strwythuredig, a hysbysu'r tîm am ddyheadau i ehangu'r Academi Doethurol gyfredol i goleg doethurol llawn a fyddai'n gweithredu fel stop un siop. Felly mae'r tîm yn **cadarnhau** y camau sy'n cael eu cymryd i ddatblygu ac ehangu'r academi ddoethurol bresennol ymhellach er mwyn cryfhau'r gymuned ymchwil ôl-raddedig.

38 Yn Nhachwedd 2019, cymeradwyodd y Brifysgol God Ymarfer ar gyfer recriwtio, cefnogi a hyfforddi myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n addysgu. Mae'r Cod Ymarfer yn amlinellu cyfres o fodiwlau hyfforddi corfforaethol gofynnol, gweithdai gofynnol ar hawliau myfyrwyr ac ymarfer myfyriol, yn ogystal â modiwl 20 credyd ar Gefnogaeth Dysgu ac Addysgu ac ymsefydlu academaidd. Dywed y Cod Ymarfer y dylid cwblhau'r hyfforddiant hwn ar unwaith, ac yn ddelfrydol cyn cychwyn gweithgareddau cysylltiedig i'r rôl. Fodd bynnag, canfu'r tîm fod myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig wedi cymryd rhan mewn addysgu heb gyflawni hyfforddiant ac wedi cefnogi darpariaeth ar-lein heb hyfforddiant penodol. Mae'r tîm

felly'n **argymell** bod y Brifysgol yn sicrhau bod yr holl fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n addysgu yn ymgymryd â hyfforddiant ffurfiol priodol cyn cymryd cyfrifoldeb am addysgu gan gynnwys hyfforddiant penodol ar gyfer darparu ar-lein lle bo hynny'n briodol.

## 2.5 Cefnogi'r myfyrwyr i'w datblygu fel dysgwyr

39 Cyflwynodd y Brifysgol Rhaglen Gynefino Estynedig yn 2016-17, gyda'r nod o wella profiad cyn cyrraedd a chynefino myfyrwyr. Datblygwyd Llawlyfr Cynefino yn 2017-18, yn cynnwys canllaw ar gyfer timau'r rhaglen ar gynllunio rhaglenni cynefino. Disgrifiodd myfyrwyr, yn cynnwys myfyrwyr rhyngwladol, y bu tîm yr adolygiad yn cwrdd â nhw yn ystod ymweliad yr adolygiad, y trefniadau cynefino fel defnyddiol ac effeithiol. Newidiwyd y trefniadau cynefino ar gyfer blwyddyn academiaidd 2020-21 o ganlyniad i'r pandemig. Cynlluniwyd y cynefino fel rhith ddigwyddiad dros dridiau. Cyflwynwyd Canllaw Cynefino 2020 ar gyfer Tiwtoriaid Personol, yn ogystal â phrosiect Croesawu Trosiant Myfyrwyr, ble mae myfyrwyr newydd yn cymryd rhan mewn galwad ar-lein gyda myfyrwyr cyfredol sydd wedi derbyn hyfforddiant, ac yn gallu darparu cyngor a chyfeirio at ffynonellau cefnogaeth perthnasol.

40 Bydd gan bob myfyriwr fynediad at diwtor personol. Fe neilltuir tiwtor personol i fyfyrwyr yn ystod y cyfnod cynefino, ac fel arfer bydd yr unigolyn hwn yn parhau i fod yn diwtor iddynt yn ystod eu hastudiaethau. Yn dilyn anghysondeb gweithredol blaenorol, fe ddatblygodd y Brifysgol Bolisi a Chynllun Tiwtora Personol Estynedig yn 2017. Mae'r polisi yn cynnwys cyfres o egwyddorion arweiniol, adran ar hawliau chyfrifoldebau myfyrwyr, a manylion yn ymwneud â rôl a chyfrifoldebau tiwtoriaid personol. Mae gan diwtoriaid personol fynediad i'r dangosfwrdd Dadansoddeg Dysgwyr, sydd â data perthnasol yn cynnwys ymgysylltu â myfyrwyr gyda'r amgylchedd dysgu rhithiol, graddau wedi eu cadarnhau, benthyciadau o'r llyfrgell a nodiadau. Pwysleisiodd y staff academiaidd y cyfarfu tîm yr adolygiad â nhw yn ystod ymweliad yr adolygiad werth y data hwn wrth gyflawni eu rôl tiwtor personol. Mae yna gynlluniau i ehangu'r data yn y dyfodol i gynnwys, er enghraifft, graddau amgylchedd dysgu rhithiol heb eu cadarnhau, monitro presenoldeb a hysbysiadau am ddiffyg ymgysylltu gan fyfyrwyr. Roedd y myfyrwyr a welodd tîm yr adolygiad yn gadarnhaol iawn ynghylch eu profiadau o'r system tiwtora personol, gan amlygu, er enghraifft, mor hwylus ydi hi i drefnu cyfarfod gyda thiwtor personol y gellir ei drefnu yn defnyddio ap y Brifysgol. Awgrymwyd fod y system wedi ei chryfhau ymhellach o ganlyniad i ymateb y Brifysgol i'r pandemig.

41 Roedd yn amlwg i dîm yr adolygiad a bu yna welliant o ran adborth asesu ers yr adolygiad diwethaf, ffactor oedd wedi ei amlygu gan welliant yn sgorau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF) perthnasol. Mae yna Bolisi Asesiad ac Adborth Estynedig, a luniwyd yn dilyn ymgynghori yn deillio o ymchwiliad i anghysondeb ymarfer. Roedd y myfyrwyr a welodd tîm yr adolygiad yn gadarnhaol ynghylch yr adborth asesu a dderbyniant. Fe gadarnhaont fod adborth ar gael yn brydlon, ac yn cynnig arweiniad defnyddiol o ran paratoi ar gyfer asesiadau dilynol. Awgrymodd myfyrwyr hefyd fod adborth wedi gwella o ran bod yn fwy manwl o ganlyniad i gamau yn deillio o'r pandemig.

42 Un fenter benodol sydd wedi dod i sylw tîm yr adolygiad yn ystod ymweliad yr adolygiad oedd cyflwyno fframwaith 'Moesegol, Digidol, Byd-eang ac Entrepreneuriaidd' (EDGE) Met Caerdydd. Disgrifir hyn fel model cyflawni newydd sy'n galluogi myfyrwyr i ddatblygu sgiliau moesegol, digidol, byd-eang ac entrepreneuriaidd, profiad, gwybodaeth, hyder a gwytnwch yn ogystal â'r wybodaeth arbenigol yn eu pwnc. Mae Strategaeth Gorfforaethol a Strategaeth Ymgysylltu â Myfyrwyr Met Caerdydd yn cyfeirio'n benodol at EDGE fel elfen graidd o brofiad y myfyriwr. Felly, mae EDGE wedi ei fapio yn erbyn cymwyseddau graddedigion, ac fe'i hystyrir wrth ddilysu rhaglenni newydd, a hefyd yn ystod yr adolygiad cyfnodol o ddarpariaeth gyfredol. O ran hyn, mae mewnosod EDGE wedi ei ddisgrifio fel proses dreigl.

43 Roedd yn amlwg i dîm yr adolygiad o adolygu dogfennaeth berthnasol a chlywed barhau staff, myfyrwyr ac aelodau'r corff llywodraethu yr ystyrir EDGE i fod yn ddatblygiad strategol cadarnhaol. Fodd bynnag, awgrymodd tystiolaeth a glywodd tîm yr adolygiad er ei fod wedi ei fewnosod yn gadarn yn y cwricwlwm, roedd lefelau amrywiol o ymwybyddiaeth ymysg myfyrwyr, ac fe ymddengys fod gwelededd yn amrywio ar sail fesul rhaglen. Gan ystyried hyn, byddai tîm yr adolygiad yn annog y Brifysgol i hyrwyddo'r dull fel bod pob myfyriwr yn ymwybodol ohono.

44 Mae'r Brifysgol wedi cyflwyno nifer o fecanweithiau i gefnogi myfyrwyr yn ystod y pandemig. Mae hyn yn cynnwys Polisi Dim Anfantais (Rhwyd Ddiogelwch) 201b. Mae cronfa gymorth COVID-19 wedi ei chreu i ddarparu dyfarniadau i roi rhyddhad ar unwaith i fyfyrwyr sy'n wynebu caledi, yn cynnwys myfyrwyr rhyngwladol. Mae'r Brifysgol yn cynnig gwasanaethau cynghori gyda system apwyntiadau ar-lein ar gyfer gwasanaethau cynghori. Crëwyd mecanwaith i ddarparu lloches i fyfyrwyr sy'n dioddef trais domestig, ac mae'r Brifysgol wedi cysylltu â myfyrwyr sy'n hunanynysu a chynnig cymorth iddynt. Siaradodd y myfyrwyr y siaradodd tîm yr adolygiad â nhw yn gadarnhaol am y gefnogaeth maent wedi ei dderbyn yn ystod y pandemig, gan bwysleisio y bu'n bosibl cysylltu â darlithwyr a'u bod yn ystyrion o'u hanawsterau. Ar lefel fwy cyffredinol, hysbyswyd tîm yr adolygiad fod ymateb y Brifysgol wedi cynnwys Undeb y Myfyrwyr fel partner yn y broses o wneud penderfyniadau, a bod yna ddisgwyliad y bydd y lefel estynedig hon o gydweithredu yn parhau yn y dyfodol.

## **2.6 Yr amgylchedd dysgu a ddarperir, gan gynnwys y defnydd a wneir o dechnoleg**

45 Ers yr adolygiad QAA diwethaf yn 2014, mae'r Brifysgol wedi buddsoddi dros £40 miliwn yn ei ystâd. Mae hyn yn cynnwys sefydlu Ysgol Dechnolegau Caerdydd newydd, a lansiwyd yn 2018. Cyflwynodd y Brifysgol Strategaeth Ystadau yn 2018 er mwyn sefydlu sut fydd datblygiad ystâd y Brifysgol yn cefnogi ei Gynllun Strategol. Ar y cyd â'r Strategaeth Ystadau, mae Uwchgynllun Ystadau wedi ei gynhyrchu yn sefydlu sut fydd campysau'r Brifysgol yn cael eu datblygu hyd at 2032. Cyflwynwyd strwythur llywodraethu newydd ar gyfer materion ystâd yn yr hydref 2019, yn cynnwys sefydlu Pwyllgor Amgylchedd ac Ystadau'r Brifysgol.

46 Cyflwynodd y Brifysgol Strategaeth ddigidol yn 2018 hefyd, i ddisodli ei Strategaeth Technoleg a Gwybodaeth blaenorol. Mae gan y Strategaeth Ddigidol nod ddatganedig o sefydlu sut fydd gwneud gwell defnydd o lefydd ac arferion digidol yn galluogi'r Brifysgol i gyflawni ei blaenoriaethau strategol. Y Pwyllgor Strategaeth Ddigidol sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am gyflawni'r Strategaeth.

47 Newidiodd y Brifysgol ei phlatform amgylchedd dysgu rhithiol yn 2015. Disgwylir i bob rhaglen gadw ar safonau gofynnol ar gyfer safle amgylchedd dysgu rhithiol eu rhaglen, sy'n cynnwys llawlyfr y rhaglen, gwybodaeth tiwtor a manylion cyswllt, nodiadau darlithoedd, pwyntiau cyflwyniad crynodol electronig ac adborth ar asesiad crynodol. Roedd myfyrwyr y bu tîm yr adolygiad yn siarad â nhw yn ystod ymweliad yr adolygiad yn gyffredinol gadarnhaol ynghylch pa mor effeithiol yw defnydd y Brifysgol o'r amgylchedd dysgu rhithiol. Fodd bynnag, fe wnaethant amlygu rhai problemau, yn cynnwys amhariad ar y gwasanaeth yn ystod adegau anghyfleus oherwydd gwaith cynnal, a rhywfaint o anghysondeb o ran defnydd. Clywodd tîm yr adolygiad hefyd bod rhai staff academiaidd ar achlysur, yn arbennig yn ystod y newid i ddysgu cyfunol o ganlyniad i'r pandemig, yn cyfuno defnydd o wahanol blatfformau, sy'n gallu creu dryswch. Tua diwedd 2019, cychwynwyd Prosiect Llywodraethu a Gwelliant gyda'r nod ddatganedig o sefydlu llinellau proses a llywodraethu clir parthed amgylcheddau dysgu myfyrwyr, yn cynnwys yr amgylchedd dysgu rhithiol. Yn rhan o'r prosiect hwn, mae Bwrdd Llywodraethu wedi ei sefydlu gyda chynrychiolaeth gan ysgolion, gwasanaethau proffesiynol ac Undeb y Myfyrwyr, gyda phwyslais ar welliant.

48 Yn ystod ymweliad yr adolygiad, clywodd tîm yr adolygiad hanesion cadarnhaol iawn am y gefnogaeth i'r amgylchedd dysgu a geir gan Lyfrgelloedd a Gwasanaethau Gwybodaeth y Brifysgol. Mae'r hanesion hyn yn cyfateb i'r lefel uchel o foddhad gyda'r Adnoddau Dysgu a welwyd yn Arolwg ACF 2019 (boddhad 88%) ac Arolwg PTES 2019 (boddhad 84%).

49 Roedd myfyrwyr y siaradodd tîm yr adolygiad â nhw yn ystod ymweliad yr adolygiad yn arbennig o gadarnhaol ynghylch rôl y Llyfrgelloedd a Gwasanaethau Gwybodaeth o ran darparu lefel estynedig o gefnogaeth mewn ymateb i'r pandemig. Ymysg yr enghreifftiau o'r gefnogaeth hon mae: gwasanaeth ymholiad digidol cefnogaeth desg gymorth ar-lein; gweithdai ar-lein byw; benthyciadau clicio a chasglu a llyfrau trwy'r post; cynnwys e-lyfrau ychwanegol; benthyciadau gliadiuron; a chefnogaeth ar gyfer y rhith ffair y gleision. Mae'r Llyfrgelloedd a Gwasanaethau Gwybodaeth hefyd yn cymryd rhan mewn sgursiau am ofod astudio ar gyfer cam nesaf yr ymateb i'r pandemig. Yng ngoleuni'r ffactorau hyn, mae tîm yr adolygiad yn **cymeradwyo'r dull arbennig o ragweithiol y Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth i wella lefel y gefnogaeth i fyfyrwyr ymhellach, yn enwedig yn ystod y pandemig.**

## 2.7 Cefnogi profiad dysgu'r myfyrwyr cyfrwng Cymraeg

50 Sefydla Siarter Myfyrwyr y Brifysgol ymroddiad ar ran y Brifysgol i weithio'n agos gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ac i ddarparu cyfleoedd i fyfyrwyr astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan y Brifysgol Uned Iaith Gymraeg, sy'n cefnogi ysgolion academiaidd i ddatblygu darpariaeth a chefnogaeth i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â sicrhau cydymffurfiaid gyda Safonau'r Gymraeg. Mae'r Brifysgol wedi sefydlu Cangen o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a Phennaeth Uned y Gymraeg yw Swyddog y Gangen. Mae'r Brifysgol wedi derbyn cyllid y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar gyfer staff academiaidd ac, yn fwy diweddar, bu pwyslais ar gyllid ar gyfer pynciau. Mae ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol hefyd ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio o leiaf 40 credyd mewn blwyddyn trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae'r Brifysgol yn cynnig ysgoloriaethau mewnol ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio 20 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg ar Lefel 4.

51 Mae yna ymroddiad strategol yng Nghynllun Strategol y Brifysgol i gefnogi ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys cynyddu nifer myfyrwyr, ac fe hysbyswyd tîm yr adolygiad bod cynlluniau ar y gweill i ehangu'r detholiad o raglenni ble mae'n bosibl astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn strategol, gyda'r bwriad o gynyddu cyflogadwyedd yn uniongyrchol trwy greu graddedigion sy'n gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Sefydli'r nifer o fyfyrwyr sy'n astudio 40 credyd neu fwy yn y Gymraeg fel mesur o lwyddiant yn y Cynllun Strategol, gyda tharged o gynyddu niferoedd i 500 erbyn 2022-23. Tyfodd y niferoedd o 216 yn 2016-17 i 265 yn 2018-19, ond gostyngodd ychydig i 222 yn 2019-20. Hysbyswyd tîm yr adolygiad bod cynllun gweithredu yn cael ei gynhyrchu mewn ymateb i'r nod hon, a fydd yn cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Cangen y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, cyn mynd ymlaen i Fwrdd Academiaidd Cyfunol y Brifysgol i'w gymeradwyo yn ystod blwyddyn academiaidd 2020-21.

52 Clywodd tîm yr adolygiad hanesion cadarnhaol am y profiad dysgu cyfrwng Cymraeg mewn cyfarfodydd â myfyrwyr. Mae dosbarthiadau o faint cymharol fach yn galluogi dysgu rhyngweithiol, ac roedd gan fyfyrwyr lefelau cyswllt da gyda'u darlithwyr. Gellir cyflwyno asesiadau yn Gymraeg, ac fe ddarperir adborth yn y Gymraeg. Un pwynt negyddol a godwyd oedd nad yw sleidiau darlithoedd ar gael yn Gymraeg o flaen llaw i ddosbarthiadau mewn rhai modiwlau, oherwydd yr angen i'w cyfieithu. Fe anogir y Brifysgol i gyflawni cydraddoldeb yn hyn.

53 Clywodd tîm yr adolygiad hefyd am brofiadau cadarnhaol gyda'r cyswllt rhwng astudiaethau cyfrwng Cymraeg a dysgu seiliedig ar waith. Roedd yn amlwg bod yna

gysylltiadau da rhwng y Brifysgol a chyflogwyr yn cynnig lleoliadau ar gyfer myfyrwyr cyfrwng Cymraeg. Mae'r enghreifftiau o gydweithredu yn cynnwys cyflogwyr yn gweithio gyda'r Brifysgol i annog myfyrwyr cyfrwng Cymraeg i ystyried maes addysg, ynghyd â mentrau ar y cyd i gefnogi cyflogadwyedd.

## **2.8 Effeithiolrwydd y dull o wella profiad dysgu'r myfyrwyr**

54 Mae dull y darparwr o wella profiad y myfyriwr wedi ei lywodraethu gan ei Strategaeth Ymgysylltu â Myfyrwyr, wedi ei ategu gan i Bolisi Ymgysylltu â Myfyrwyr. Mae dull y Brifysgol i wella profiad y myfyrwyr yn canolbwyntio ar y myfyriwr ac yn effeithiol; mae'r fframwaith strategol ar gyfer gwella profiad y myfyriwr yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac yn cynnwys ymgynghori arwyddocaol gyda myfyrwyr. Mae rôl y Deoniaid Cysylltiol Ymgysylltu â Myfyrwyr yn allweddol o ran cyfnerthu ymgysylltu â myfyrwyr ar draws y Brifysgol a'r bartneriaeth gyda myfyrwyr. Ynghyd â gwaith Undeb y Myfyrwyr trwy ei strwythur cynrychiolaeth myfyrwyr, telir sylw penodol i anghenion ei boblogaeth amrywiol o fyfyrwyr. Mae hyn wedi bod yn arbennig o amlwg yn ei ymateb i'r pandemig COVID-19. Mae'r Brifysgol wedi darparu tystiolaeth o'i gefnogaeth i fyfyrwyr yn eu datblygiad fel dysgwyr, yn cynnwys Polisi Tiwtora Personol gan sicrhau cysondeb ar draws y Brifysgol, dangosfwrdd Dadansoddeg Dysgu, a datblygiad EDGE (gweler paragraff 43) fel elfennau craidd profiad y myfyrwyr. Canmolwyd y gwasanaethau Llyfrgelloedd a TG am eu cefnogaeth ragweithiol. Nododd tîm yr adolygiad brofiadau positif myfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, yn cynnwys dysgu seiliedig ar waith ym meysydd iechyd ac addysg.

## **3 Cefnogi gwelliant mewn dysgu ac addysgu**

### **3.1 Y dull strategol o gynllunio i'r dyfodol, gan gynnwys y defnydd a wneir o wybodaeth er mwyn pennu blaenoriaethau o ran gwella'r dysgu a'r addysgu, a'r dulliau o'u gweithredu a'u gwerthuso**

55 Mae'r Brifysgol yn defnyddio nifer o fesurau systematig sy'n canolbwyntio ar y Cynllun Strategol 2017-18 hyd 2022-23, strategaethau galluogi cysylltiedig a Mesurau o Lwyddiant i olrhain cynnydd blynyddol yn ymwneud â chynaliadwyedd ariannol, boddhad myfyrwyr, dargadw a deilliannau, mynediad, dysgu ac addysgu, ymchwil ac arloesi a staff. Trafodir y rhain ar lefel rhaglen, ysgol, rheoli prifysgol a Bwrdd Llywodraethu er mwyn helpu'r Brifysgol i hysbysu ei flaenoriaethau. Sefydlir dull strategol y Brifysgol o gynllunio ymlaen mewn nifer o ddogfennau strategaeth thematig ar y cyd â'r Cynllun Strategol.

56 Caiff strategaethau eu monitro gan Fwrdd y Llywodraethwyr, wedi'u hysbysu gan adroddiad ffurfiol rheolaidd gan y Bwrdd Rheoli a'r Bwrdd Academiaidd a chan Swyddogion Undeb y Myfyrwyr, yr Is-Ganghellor ac uwch-aelodau staff eraill. Mae yna gyfres gynhwysfawr o ddogfennau yn arddangos y broses fapio a gyflawnwyd i'r ESG Rhan 1 a'r Fframwaith Asesu Ansawdd Cymru.

57 Mae'r Cynllun Strategol yn gysylltiedig i nifer o strategaethau a gynlluniwyd i ffocysu ar agweddau allweddol - er enghraifft, y Strategaeth Ymchwil ac Arloesi, y Strategaeth Ryngwladol Edrych am Allan, y Strategaeth Ymgysylltu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol, Strategaeth Pobl, Strategaeth Ddigidol a'r Strategaeth Ariannol. Mae yna hefyd gysylltiadau clir i strategaethau pob ysgol - er enghraifft yn strategaeth yr Ysgol Reolaeth mae yna gysylltiadau datganedig i sefydlogrwydd ariannol, ymchwil ac arloesi, rhyngwladoli ac ymgysylltu dinesig. Hefyd, mae'r Strategaeth Dysgu, Addysgu ac Asesiad yn sicrhau bod ffocysau allweddol strategaethau ar draws y Brifysgol wedi eu mewnosod yn y cwricwlwm, gyda chysylltiadau i safonau proffesiynol a sgiliau staff.



58 Cyfarfu tîm yr adolygiad gydag uwch staff, ac aelodau Bwrdd y Llywodraethwyr, a gadarnhaodd y defnyddir amrywiaeth o ffynonellau data i werthuso perfformiad ac i nodi blaenoriaethau a gynlluniwyd i ehangu dysgu ac addysgu.

59 Clywodd tîm yr adolygiad fod perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol yn cael ei fonitri'n barhaus, a bod dangosyddion yn cael eu diweddarau'n flynyddol, yn gysylltiedig i'r broses Cynllun Gwella Rhaglen (CGRh), sef yr Adolygiad Rhaglen Blynyddol (ARhB) gynt. Mae Ymgysylltu â Myfyrwyr y Dirprwy Is-Ganghellor yn gyfrifol ar y cyfan am wella ansawdd, gyda'r Dirprwy Ddeoniaid a'r Deoniaid Cysylltiol Ymgysylltu â Myfyrwyr yn gyfrifol ar lefel ysgol. Mae'r Gyfarwyddiaeth Gwella Ansawdd (CGA) yn cefnogi ysgolion mewn gweithgareddau gwella, gan sicrhau bod staff yn cael eu datblygu i ddarparu dysgu arloesol ac i hybu profiad dysgu'r myfyrwyr. Mae'r CGA yn cynnal perthynas agos gydag Undeb y Myfyrwyr er mwyn hybu profiad y myfyrwyr, yn cynnwys trwy brosiectau ar y cyd. Canfu tîm yr adolygiad fod hyn yn ddull arbennig o effeithiol ac mae'n **cymeradwyo** effaith mentrau'r Gyfarwyddiaeth Gwella Ansawdd (CGA) yn sicrhau y caiff ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr ei reoli a'i wella mewn modd cyson.

### 3.2 Y dulliau o reoli newidiadau mewn dulliau o ddysgu ac addysgu

60 Canfu tîm yr adolygiad fod y Strategaeth Ymgysylltu â Myfyrwyr a'r Strategaeth Dysgu, Addysgu ac Asesu yn ategiadau sylfaenol i'r Cynllun Strategol o ran rheoli newid mewn dulliau i ddysgu ac addysgu yn y Brifysgol, a sicrhau gwelliannau parhaus. Noda'r Strategaeth Ymgysylltu â Myfyrwyr bedair blaenoriaeth strategol: y cwricwlwm, y portffolio, y cyd-gwricwlwm a'r amgylchedd. Yn ganolog i'r strategaeth mae'r fframwaith Moesegol, Digidol, Byd-eang ac Entrepreneuriaidd (EDGE) - a gynlluniwyd i fewnosod datblygiad y priodweddau hyn trwy eu mewnosod yn y cwricwla, ac sydd wedi ei gynllunio a gweithredu ar y cyd ag Undeb y Myfyrwyr. Darpara'r Strategaeth Dysgu, Addysgu ac Asesu fframwaith i alluogi'r Brifysgol i fod yn ymatebol i'r amgylchedd addysg uwch newidiol ac i arddangos arfer gorau mewn dysgu ac addysgu.

61 Dadansoddir data arolwg myfyrwyr yn rhagweithiol i reoli newidiadau effeithiol ac amserol ble fo'n briodol. Anfonir adroddiadau pob arolwg i'r Pwyllgor Dysgu, Addysg ac Ymgysylltu â Myfyrwyr, y Bwrdd Rheoli a Bwrdd y Llywodraethwyr, gyda sylwebaeth fanwl ar sut mae'r Brifysgol yn bwriadu ymateb i'r casgliadau. Mae staff wedi canfod fod prosiect dadansoddeg dysgwyr wedi gwella eu gallu i gefnogi myfyrwyr yn sylweddol, trwy edrych ar ddata nodweddion myfyrwyr ynghyd ag ymgysylltu â'r llyfrgell a'r amgylchedd dysgu rhithiol, gyda deilliannau asesu.

62 Cyfarfu tîm yr adolygiad gydag uwch staff a staff dysgu a myfyrwyr yn ymweliad yr adolygiad. Yn ogystal â'r dogfennau a ddarparwyd gan y Brifysgol, canfu'r tîm fod yna bolisiâu a phrosesau manwl ac effeithiol ar waith i fonitro a gwerthuso dysgu ac addysgu. Yn benodol, mae gan y Brifysgol system effeithiol o werthuso perfformiad ar lefel rhaglen i hysbysu'r Cynlluniau Gwella Rhaglen (CGRh) yn flynyddol - sef yr Adolygiad Rhaglen Blynyddol gynt. Mae CGRh yn cynnwys adroddiadau gwerthuso modiwlau, llais y myfyriwr trwy gynrychiolwyr rhaglen ac arolygon allanol a mewnol, ac adroddiadau arholwyr allanol. Ystyrir CGRh ar lefel ysgol cyn mynd i'r CGA ac yna i broses adrodd yn y Bwrdd Rheoli, Bwrdd Academaidd a Bwrdd y Llywodraethwyr. Mae CGRh sefydliadau partner wedi eu ffurfweddu yn defnyddio'r un fanyleb a'r rhai ar safle'r Brifysgol, ac fe'i trafodir yn y Pwyllgor Darpariaeth Gydwethredol hefyd.

63 Mae'r CGA yn sicrhau bod pob rhaglen, neu grŵp o raglenni, yn cynnwys y rhai a ddarperir mewn sefydliadau partner, yn mynd trwy Adolygiad Cyfnodol pob pum mlynedd er mwyn sicrhau bod yr holl raglenni'n dal yn gyfredol ac yn unol â strategaethau, polisiâu a gweithdrefnau'r Brifysgol. Trafodir adroddiadau'r Adolygiad Cyfnodol mewn manylder yn y Pwyllgor Darpariaeth Gydwethredol (PDG) a'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd

(PASA), yna i'r broses adrodd sydd eisoes wedi ei disgrifio hyd ar lefel Bwrdd y Llywodraethwyr. Canfu tîm yr adolygiad fod Adolygiad Cyfnodol yn broses drylwyr, er ar hyn o bryd heb ei orffen oherwydd y pandemig, yn seiliedig ar adroddiadau ARhB (CGRh bellach) ac yn gallu ysgogi newidiadau mân neu fawr.

### **3.3 Y dulliau o gefnogi arloesi, a chanfod a rhannu arferion da**

64 Canfu tîm yr adolygiad fod y Brifysgol yn ymroddedig i hybu profiad dysgu'r myfyrwyr trwy gefnogi dulliau arloesol ac, yn benodol, trwy gael prosesau sy'n nodi arferion da i'w dosbarthu, er enghraifft, trwy weithdai, seminarau a mentora cyfoedion. Cyfarfu'r tîm gydag uwch staff a staff dysgu yn ystod yr ymweliad, yn cynnwys staff o sefydliadau partner, a gadarnhaodd yr ethos o gefnogaeth ar draws y sefydliad, ar gyfer myfyrwyr a staff, a nodi a dosbarthu arferion da.

65 Mae dull y Brifysgol o gefnogi arloesi a nodi a rhannu arferion da n seiliedig ar ei Gynllun Strategol a arweinir gan welliant a rôl y Gyfarwyddiaeth Gwella Ansawdd (CGA). Mae prosesau ansawdd wedi eu cynllunio i nodi arferion da, er enghraifft, yn y Cynlluniau Gwella Rhaglen (CGRh), sy'n porthi systemau adrodd ysgolion a rheoli, yn ogystal â dosbarthu trwy weithdai CGA ac adrodd ar-lein.

66 Ffurfiwyd y Gyfarwyddiaeth Gwella Ansawdd (CGA) yn 2018, gan integreiddio sicrwydd ansawdd a gwella ansawdd ac yn darparu cefnogaeth i ysgolion yn eu gwelliannau parhaus. Mae'r CGA yn gweithio mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, yn gweithio ar nifer o fentrau i wella profiad y myfyrwyr. Cynhelir Cynhadledd Gwella Ansawdd yn flynyddol i amlygu arferion da ar draws y Brifysgol ac mae hefyd yn agored i bartneriaid lleol a phartneriaid addysg drawswladol.

67 Mae gan y Brifysgol Gynllun Dysgu a Datblygu Cyfoedion i Staff a uwchraddiwyd yn ddiweddar i bwysleisio'r ethos gwelliant ac fe'i rheolir gan y CGA. Mae'r cynllun wedi ei gynllunio i ddarparu cefnogaeth a chyfleoedd i fyfyrion a hefyd i nodi arferion da a chyfleoedd datblygu. Er bod gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi eu cyfyngu ar hyn o bryd, cadarnhaodd staff fod gweithgaredd ar-lein yn parhau, gyda chefnogaeth TG a werthfawrogi yn fawr iawn, yn cynnwys ar gyfer sefydliadau partner.

68 Canfu tîm yr adolygiad bod yna ethos o nodi a rhannu arferion da yn y Brifysgol sydd wedi ei hybu yn ystod y pandemig trwy ddefnydd cynyddol o byrth ar-lein i rannu cyflwyniadau a digwyddiadau, nifer ar lefel ysgol ond yna'n cael eu rhannu'n fyd eang.

### **3.4 Cefnogi a datblygu staff ac ymgysylltu â nhw**

69 Mae dull y Brifysgol o gefnogi a datblygu staff ac ymgysylltu â nhw yn seiliedig ar ei Strategaeth Pobl. Pobl yw un o'r tair colofn sy'n cefnogi cyflawniad Cynllun Strategol y Brifysgol. Mae'r dull strategol yn seiliedig ar ddenu a datblygu staff, llesiant staff a chynllunio ac adolygu'r gweithlu.

70 Canfu tîm yr adolygiad fod y Brifysgol yn cynnig amrywiaeth eang o gefnogaeth a chyfleoedd datblygu i staff, yn y Brifysgol ac i'w nifer o bartneriaid. Wedi ei ysgogi gan y Cynllun Strategol a'r Strategaeth Ymgysylltu â Myfyrwyr, mae yna ddiwylliant sefydliadol sy'n gwerthfawrogi a gwobrwyo addysgu ar bob lefel a ble mae egwyddorion Fframwaith Safonau Proffesiynol y Deyrnas Unedig wedi eu mewnosod. Disgrifir yr ethos yma yn Siarter Tîm y CGA, sydd, er enghraifft, yn datgan mai amcan allweddol yw i hwyluso datblygiad staff i alluogi cyflawniad effeithiol a chefnogaeth ar gyfer cwricwlwm arloesol sy'n gyfredol ac wedi ei halinio gydag ymarfer y sector, yn sicrhau bod yr holl staff a rhanddeiliaid yn gwerthfawrogi datblygiad staff.

71 Mae staff addysgu yn cwblhau datblygu gofynnol ar, er enghraifft, ddatblygiadau yn yr amgylchedd dysgu rhithiol a meddalwedd cyfarfodydd ar-lein, ac mae ganddynt basbort dysgu ble gellir cofnodi gweithgareddau datblygu. Mae nifer o gyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ar gael trwy dudalennau DPP y wefan CGA, ynghyd â nifer o weithdai a sesiynau trwy gydol y flwyddyn academaidd. Anogir staff i ddysgu neu wella eu sgiliau Cymraeg. Mae'r holl gyfleoedd hyfforddi hefyd ar gael i staff darpariaeth gydweithredol. Mae yna ddisgwyliad y bydd yr holl staff academaidd yn cymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu blynyddol gan gymheiriaid ac mae'r Cynllun Dysgu a Datblygu Cymheiriaid Staff wedi ei gynllunio i ddarparu cefnogaeth ac i nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu, yn ogystal ag arferion da. Arsylwyd addysgu gan gymheiriaid, a thrwy diwtoriaid cyswllt/cymedrolwyr mewn sefydliadau partner, ac fe'i porthir i mewn i adolygiadau perfformiad.

72 Mae'r Brifysgol yn cynnig canllawiau digwyddiadau a gweithdai ac yn cefnogi staff trwy'r broses o fod yn Gymrawd ac Uwch Gymrawd Advance HE (gyda'r nifer o gymrodoriaethau ar hyn o bryd yn 341). Mae staff newydd sydd heb gymhwyster addysgu yn cwblhau Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysgu Addysg Uwch (TAR THE), yn arwain at Gymrodoriaeth Gyswllt neu Gymrodoriaeth Advance HE. Mae'r Brifysgol wedi ei hachredu gan Advance HE i ddyfarnu Cymrodoriaethau trwy ei baneli ar gyfer Cymrawd Cyswllt a Chymrawd, a phaneli Cymrawd Uwch a phrif Gymrawd. Fe anogir myfyrwyr ôl-raddedig i gyflawni rhywfaint o addysgu ar lefel ysgol ac, os nad yw eisoes yn meddu ar gymhwyster addysgu, gall gwblhau modiwl neu fodylau o'r TAR THE. Ar hyn o bryd, mae 22% o fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ar y campws yn cyflawni rolau fel tiwtoriaid cyswllt, technegwyr/arddangoswyr neu arddangoswyr dosbarth (gweler hefyd paragraff 36).

### **3.5 Effeithiolrwydd y dulliau o weithredu strategaethau sefydliadol a gwella'r dysgu a'r addysgu**

73 Roedd gwaith yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu o ran darparu detholiad cynhwysfawr o gyfleoedd ac adnoddau r gyfer gwella dysgu ac addysgu yn nodwedd o arferion da yn yr adolygiad QAA blaenorol. Yn ystod yr adolygiad presennol, canfu'r tîm fod y prosesau oedd yn weithredol yn dal i fod yn effeithiol yn bennaf. Mae dull y Cynllun Strategol yn dynodi'r mesurau llwyddiant a ddefnyddir wrth fonitro a gwerthuso'r strategaeth. Cadarnhaodd uwch staff ac aelodau'r bwrdd llywodraethu gynnydd yn erbyn y mesurau hyn. Yn benodol, mae'r Gyfarwyddiaeth Gwella Ansawdd (CGA), olynnydd yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu, yn sicrhau y darperir cefnogaeth ar gyfer yr holl staff wrth iddynt addysgu a chefnogi myfyrwyr.

74 Datganir blaenoriaeth strategol allweddol trwy EDGE Met Caerdydd: Fframwaith Moesegol, Digidol, Byd-eang ac Entrepreneuriaidd. Disgrifir hyn fel blaenoriaeth greiddiol, sy'n galluogi myfyrwyr i ennill sgiliau allweddol trwy fewnosod eu datblygiad yn y cwricwlwm, ond mae'n galw am strategaeth bellach, benodol ar gyfer cyfathrebu â myfyrwyr (gweler paragraff 44).

75 Mae asesiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol yn awgrymu bod dipyn o gyflawniad yn digwydd, yn cynnwys gwelliant yn y cyfraddau bodddhad ACF, cynnydd yn nifer myfyrwyr, cynnydd yn y nifer o gymrodoriaethau Advance HE a staff sydd â doethuriaethau.

76 Ar y cyfan, gwelodd tîm yr adolygiad er nad oedd pob menter wedi ei mewnosod yn llawn, ei fod yn hyderus o ran dull strategol y Brifysgol i weithredu ei strategaethau i wella dysgu ac addysgu.

### 3.6 Effeithiolrwydd y defnydd a wneir o'r dulliau sicrhau ansawdd i wella'r dysgu a'r addysgu

77 Mae strategaethau a chynlluniau'r Brifysgol yn canolbwyntio ar wella dysgu ac addysgu ar bob lefel, gyda gweithdrefnau adrodd cadarn. Mae'r Brifysgol yn ymwybodol o'i diffygion - er enghraifft, cyfraddau cadw a dilyniant i gyflogaeth â sgiliau lefel uchel - ac mae'n datblygu strategaethau yn y meysydd hynny. Caiff strategaethau eu monitro gan Fwrdd y Llywodraethwyr, wedi'u hysbysu gan adroddiad ffurfiol rheolaidd gan y Bwrdd Rheoli a'r Bwrdd Academaidd a chan Swyddogion Undeb y Myfyrwyr, yr Is-Ganghellor ac uwch-aelodau staff eraill.

78 Mae adroddiadau arholwyr allanol yn gyffredinol yn cadarnhau bod gwerth, perthnasedd a chydlyniant rhaglenni yn briodol ac yn gydnaws â'r *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch* (FHEQ) a Datganiadau Meincnodau Pynciau. Rhoddir sylw i unrhyw bryderon a godir gan arholwyr allanol trwy ymatebion tîm i'r adroddiad, mewn Cynlluniau Gwella Rhaglen, a thrwy weithdrefnau adrodd ffurfiol ar lefel ysgol a rheolwyr. Nodir arfer da yn yr un modd ar gyfer rhannu gwybodaeth trwy'r prosesau adrodd ac mewn seminarau, gweithdai a chynadleddau gwella blynyddol.

79 Canfu'r tîm adolygu bod y defnydd sy'n datblygu o ddata sy'n seiliedig ar nodweddion, ymgysylltiad a deilliannau myfyrwyr ar draws y Brifysgol trwy ddangosfyrddau data, ynghyd â chymorth amserol i fyfyrwyr, a phrosesau adrodd cadarn ac effeithiol, yn arwain at welliannau effeithiol yn y dysgu a'r addysgu.

## 4 Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academaidd

### 4.1 Nodweddion allweddol dulliau'r darparwr o reoli ansawdd a'r ffordd y mae'r myfyrwyr yn cyfranogi yn y gwaith o reoli ansawdd y cyfleoedd dysgu

80 Y Bwrdd Academaidd sy'n gyfrifol am ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr ac am safonau'r dyfarniadau i fyfyrwyr. Mae'r Bwrdd Academaidd yn atebol i Fwrdd y Llywodraethwyr am y materion hyn ac mae'n darparu Adroddiad Sicrwydd Blynyddol sydd, yn ei dro, yn galluogi'r llywodraethwyr i gadarnhau bod y Brifysgol wedi cydymffurfio â phum datganiad llywodraethu sicrhau ansawdd CCAUC. Mae'r Bwrdd Academaidd yn dirprwyo goruchwyliaeth fanwl dros ansawdd a safonau i'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd (PASA) a gadeirir gan y Dirprwy Is-Ganghellor Ymgysylltu â Myfyrwyr ar hyn o bryd wedi i'r Cyfarwyddwr Gwella Dysgu ei gadeirio am y ddwy flynedd diwethaf. Y Dirprwy Is-Ganghellor sy'n cadeirio'r Pwyllgor Dysgu, Addysgu ac Ymgysylltu â Myfyrwyr (PDAYM) hefyd, a'r pwyllgor hwnnw sy'n gyfrifol, ar ran y Bwrdd Academaidd, am oruchwyllo pob agwedd ar wella ansawdd ar raglenni a addysgir. Mae PDAYM yn gorff mwy trafodol na PASA ac mae'n canolbwyntio ar fonitro a gwella profiad pob myfyriwr a addysgir ym mhle bynnag a pha fodd bynnag y maent yn astudio.

81 Nododd y tîm adolygu ddwy o nodweddion allweddol dull presennol y Brifysgol o reoli ansawdd. Yn gyntaf, mae ymrwymiad polisi pendant i gynnwys myfyrwyr yn y gwaith o sicrhau a gwella eu profiad dysgu ac na ddylai hynny gael ei gyfyngu i fod yn broses ymgynghori ond y dylai hefyd gynnwys gweithio mewn partneriaeth gyda chyfleoedd dan arweiniad myfyrwyr. Mae'r modd y caiff hyn ei gyflawni yn cael ei ddisgrifio ym Mholisi Cyfranogiad Myfyrwyr mewn Prosesau Ansawdd 2019, a ysgrifennwyd gyda mewnbwn gan Undeb y Myfyrwyr, sy'n amlinellu'r holl gyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr gael dweud eu dweud ac ymgysylltu ag ystod o brosesau. Yn ail, roedd y Brifysgol wedi ad-drefnu ei strwythurau rheoli ansawdd yn ddiweddar, ac yn benodol wedi creu'r Gyfarwyddiaeth Gwella Ansawdd (CGA) yn 2019 i reoli ansawdd ac i gydlynu mentrau gwella dysgu. Ar yr un pryd, crëwyd swyddi Deoniaid Cysylltiol Ymgysylltu â Myfyrwyr ym mhob un o'r pum ysgol i weithio'n agos gyda CGA a staff academaidd er mwyn datblygu ymgysylltiad â myfyrwyr.

Dywedwyd wrth y tîm adolygu bod y newidiadau hyn wedi esgor ar fanteision arwyddocaol o ran galluogi staff academiaidd yn yr ysgolion a'r staff proffesiynol yn CGA i weithio mewn modd cydlynus.

82 Mae myfyrwyr yn cymryd rhan ym mhob cam o'r gwaith o reoli ansawdd a safonau academiaidd. Mae ganddynt gynrychiolaeth ar baneli a phwyllgorau'r Brifysgol a'r ysgolion sy'n cynllunio ac yn cymeradwyo'r cwricwlwm yn ogystal â'r rhai sy'n monitro ac yn adolygu dysgu ac addysgu. Mae myfyrwyr yn cael hyfforddiant i gefnogi eu rolau yn aelodau o baneli adolygu cyfnodol a chymeradwyo rhaglenni. Mae arweinwyr rhaglenni academiaidd yn ymateb i adborth myfyrwyr a ddarperir mewn gwerthusiadau modiwlau ac yn yr ACF trwy lunio cynlluniau gweithredu blynyddol ar gyfer pob rhaglen astudio. Caiff deilliannau pob ffynhonnell o adborth myfyrwyr a thystiolaeth o gynnydd myfyrwyr eu defnyddio gan Ddirprwy Ddeoniaid yr ysgolion i gynhyrchu Cynlluniau Gwella Profiad Myfyrwyr (CGPMau) blynyddol. Ar lefel y sefydliad, mae'r Deoniaid Cysylltiol o'r pum ysgol yn arwain Grŵp Llais y Myfyriwr (gweler paragraff 27), sydd â chynrychiolaeth o blith swyddogion undeb y myfyrwyr ac sy'n ystyried pob ffynhonnell o farn myfyrwyr ac yn monitro deilliannau cynlluniau gweithredu.

## **4.2 Nodweddion allweddol y dulliau o osod, cynnal, adolygu ac asesu safonau academiaidd**

83 Mae gan y Brifysgol ystod o weithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau bod safonau'r dyfarniadau a wneir ganddi yn gydnaws ag anghenion a meincnodau'r sector. Yn eu plith, mae: rheoliadau asesu sy'n mynnu asesu cadarn ac effeithiol; sicrwydd gan arholwyr allanol bod y safonau a gymhwysir yn cymharu â rhai'r sector addysg uwch; gweithdrefnau cymeradwyo ac ail ddilysu sy'n gwneud defnydd o ymgynghorwyr allanol i brofi a yw cyrsiau a chymwysterau yn gydnaws â disgrifyddion cymwysterau'r FHEQ, Datganiadau Meincnodi Pwnc y QAA, a gofynion cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (CPSRh) lle bo hynny'n berthnasol; a bod y gweithdrefnau hyn yn gyson â Chod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer gosod, cynnal, adolygu ac asesu safonau academiaidd wedi'u hamlinellu yng nghyfrol 1 a 2 y Llawlyfr Academiaidd sydd yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.

84 Caiff tystiolaeth ei chasglu ar draws 11 dimensiwn er mwyn dangos sut y cynhelir safonau dyfarniadau ac y cefnogir dysgu'r myfyrwyr. Adroddir ar y rhain i'r Bwrdd Academiaidd, ac wedyn i Fwrdd y Llywodraethwyr ac maent yn dilyn model a awgrymwyd gan y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (CUC) gan ymgorffori dangosyddion allweddol megis beirniadaethau ac adroddiadau arholwyr allanol, gwerthusiadau CPSRhau, deilliannau adolygiadau cyfnodol a blynyddol rhaglenni, deilliannau asesu myfyrwyr, ystod eang o ddulliau o fesur boddhad a phrofiad myfyrwyr, a gwerthusiadau o ymgysylltiad myfyrwyr â llywodraethu academiaidd. Caiff mesuriadau o gymorth dysgu i fyfyrwyr eu casglu ynghyd a'u gwerthuso gan adrannau gwasanaethau proffesiynol, megis CGA a Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth, sy'n adrodd ar ansawdd graddau a addysgir a graddau ymchwil a ddarperir yn y Brifysgol ac yn ei phartneriaid cydweithredol. Caiff y dystiolaeth ei hystyried gan y pwyllgorau rheoli ansawdd ar lefel y brifysgol (PASA, PDAYM, PGY a PDG) cyn ei chyflwyno i'r Bwrdd Academiaidd a Bwrdd y Llywodraethwyr. Yn ogystal â chyfarfod staff a myfyrwyr, roedd y tîm adolygu wedi gallu archwilio cofnodion y pwyllgorau perthnasol sy'n gyfrifol am reoli ansawdd ynghyd a'r dystiolaeth a gyflwynwyd iddynt.

85 Hyd at flwyddyn academiaidd 2019-20, bu'r Brifysgol yn cynnal adolygiadau rhaglen blynyddol (ARhBau) a olygai bod ysgolion yn monitro safonau trwy ystyried deilliannau dyfarniadau a dilyniant myfyrwyr, ynghyd â beirniadaethau arholwyr allanol, ac yn adrodd ar y rhain i PASA. O ddechrau blwyddyn academiaidd 2020-21, disodlodd y Brifysgol y system ARhB â phroses ddiwygiedig Cynlluniau Gwella Rhaglen (CGRh). Cytunodd PASA, oherwydd y newidiadau sylweddol mewn dysgu ac addysgu a ddigwyddodd o fis Mawrth

2020 yng nghyd-destun pandemig COVID-19, a'r baich gwaith a osodwyd ar staff a myfyrwyr er mwyn ymateb i'r newidiadau hyn, y byddai'r Brifysgol yn newid y dull presennol o fonitro blynyddol o dymor hydref 2020-21. Cafodd y broses ddiwygiedig o Gynlluniau Gwella Rhaglen (CGRh) ei chymeradwyo ac roedd yn cael ei gweithredu gan ysgolion adeg yr adolygiad hwn. Roedd y dull CGRh yn cyfuno cynlluniau gweithredu'r ACF â phroses ARhB wedi'i symleiddio. Roedd y system newydd yn dibynnu ar y gwelliannau diweddar i ddata rhaglenni a dadansoddiadau myfyrwyr cyfoes sy'n monitro gweithgaredd, perfformiad a deilliannau myfyrwyr. Mae staff a myfyrwyr yn trafod ac yn gwerthuso'r data ar ddilyniant ac adborth myfyrwyr yn ystod cyfarfodydd trafod CGRh. Wedi hynny, mae cyfarwyddwyr rhaglenni yn paratol cynlluniau gweithredu sy'n canolbwyntio ar feysydd ble mae perfformiad yn is na'r meincnodau.

86 Yn ei gyfarfodydd gyda rheolwyr a staff academiaidd, dywedwyd wrth y tîm adolygu bod y system newydd yn gweithio'n dda ac yn galluogi modiwlau a rhaglenni i gael eu monitro yn ystod y flwyddyn academiaidd a'u haddasu'n gyflymach ble roedd problemau ansawdd neu safonau yn datblygu. Roedd adolygiad gan CGA o'r modd y gweithredwyd y system monitro flynyddol newydd wedi'i gynllunio ar gyfer gwanwyn 2021, a byddai hynny'n galluogi PASA i benderfynu pa elfennau o'r broses CGRh a pha elfennau o'r broses ARhB y dylid eu cadw yn y dyfodol.

### **4.3 Y defnydd a wneir o fannau cyfeirio allanol mewn prosesau ansawdd**

87 Trwy ei rheolaeth dros ansawdd a safonau, mae'r Brifysgol yn gweithredu polisiau a gweithdrefnau sydd wedi'u cynllunio i fodloni ystod o fannau cyfeirio academiaidd allanol. Y pennaf o'r rhain yw: Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG); y fframweithiau sicrhau ansawdd cenedlaethol (FHEQ, FFCCChC a Datganiadau Meincnodi Pwnc); a'r cyngor a chanllawiau a amlinellir yn 12 adran thematig Cod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch (y Cod Ansawdd). Roedd ymarferion ailfapio wedi'u cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod polisiau ac arferion y Brifysgol yn parhau'n gyson â'r manau cyfeirio allanol hyn.

88 Esgorodd pandemig COVID-19 o fis Mawrth 2020 ar amryw o ychwanegiadau a diwygiadau i'r fframweithiau rheoleiddio ac ansawdd a gymhwysir gan y Brifysgol. Yn benodol, ym mis Mehefin 2020, cyhoeddodd CCAUC gylchlythyr 'Effaith Covid-19 ar Ddarparwyr Addysg Uwch: Goblygiadau o ran Cyllido, Rheoleiddio ac Adrodd W20/11HE'. Roedd hwn yn gofyn i brifysgolion gadw at y Cod Ansawdd ynghyd ag atodiadau mewn perthynas â COVID-19. Hefyd, ym mis Mehefin, cyhoeddodd QAA gyfres o nodiadau canllaw a briffio i gynorthwyo darparwyr i gadw at y Cod Ansawdd tra roeddent yn addasu i'r pandemig. Adolygodd y Brifysgol ei pholisïau er mwyn ymateb i'r newidiadau hyn i ofynion adrodd a rheoleiddio.

### **4.4 Sylwadau ar y camau a gymerwyd ers yr adolygiad blaenorol a phennu materion sy'n codi o'r Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw nad ydynt yn cael eu harchwilio fel arall**

89 Roedd cyfyngiadau pandemig COVID-19 yn golygu bod angen newidiadau i asesiadau myfyrwyr o fis Mawrth 2020. Oherwydd y cyfyngiadau eithriadol a digynsail ar gynulladau myfyrwyr yn ystod y pandemig, cytunodd y Bwrdd Academiaidd y gallai arweinwyr modiwlau newid y mathau o asesiadau yn ystod y cyfnod asesu nesaf. Rhoddwyd gweithdrefnau asesu newydd ar waith a oedd yn cynnwys dau brif newid. Yn gyntaf, gweithredwyd polisi rhwyd diogelwch 'dim anfantais' ar gyfer modiwlau 2019-20 ble roedd y modiwl wedi dechrau cael ei ddarparu ddim hwyrach na 30 Mehefin 2020. Roedd y polisi hwn yn sicrhau na fyddai marciau terfynol cyfartalog blwyddyn academiaidd y myfyrwyr ddim is na'r cyfartaledd a gyflawnwyd trwy asesiadau ffurfiol a gwblhawyd cyn 20 Mawrth 2020. Yn ail, disodlwyd arholiadau ffurfiol a eisteddwyd ag asesiadau ar-lein ac arholiadau llyfr agored a gyflwynwyd yn electronig ynghyd â chyfle i gael dwy wythnos o estyniad awtomatig

i ddyddiad cyflwyno gwreiddiol unrhyw waith ysgrifenedig. Cyflwynwyd y newidiadau hyn er mwyn rhoi amser i fyfyrwyr wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'w ffyrdd o weithio. Cafodd y newidiadau i ddulliau asesu a threfniadau arholiadau eu cyfleu i, a'u cytuno yn unol â'r hyn oedd yn briodol, gan arholwyr allanol, CPSRhau ac Undeb y Myfyrwyr. Yn ogystal, bu Llywydd a Dirprwy Lywydd Undeb y Myfyrwyr, fel aelodau llawn, yn mynychu cyfarfodydd misol Bwrdd y Llywodraethwyr a'r Bwrdd Academaidd Cyfunol - sef uniad rhwng y Bwrdd Academaidd a'r Bwrdd Rheoli a gyflawnwyd er mwyn symleiddio prosesau gwneud penderfyniadau yn wyneb y pandemig - ac yn cyfrannu at wneud penderfyniadau ynglŷn ag addysgu ac asesu yn ystod 2020.

90 Adroddwyd ar batrwm canlyniadau graddau haf 2020 i PDAYM ym mis Hydref 2020. Roedd y gyfran o raddau anrhydedd uwch (anrhydedd dosbarth cyntaf ac ail ddosbarth) a ddyfarnwyd yn 2019-20 i'r holl fyfyrwyr israddedig a oedd wedi'u lleoli yn y DU wedi codi i 79.9%, sef cynnydd o 9% ers y flwyddyn academaidd flaenorol. Cyfartaledd y sector ar gyfer graddau anrhydedd uwch yn 2018-19 oedd 76.7%. Roedd y cynnydd yn 2020 yn dilyn cynnydd mewn deilliannau anrhydedd uwch ym mhob un o'r tair blynedd flaenorol (1%, 2%, 4%) y mae'r Brifysgol wedi'u priodoli i newidiadau yn yr algorithm a ddefnyddir i gyfrifo dosbarthiadau graddau. Nododd yr adroddiad hefyd bod bylchau mewn cyflawniad ar gyfer rhai categorïau o fyfyrwyr: myfyrwyr gwrywaidd, myfyrwyr BME a myfyrwyr tramor nad oeddent o'r Undeb Ewropeaidd. Dywedodd y Brifysgol wrth y tîm adolygu y byddai PDAYM yn rhoi sylw i'r materion hyn yn ystod 2020-21 (gweler paragraff 33).

91 Ystyriodd y tîm adolygu a oedd y newidiadau yn y gyfran o fyfyrwyr a oedd yn ennill graddau anrhydedd dosbarth cyntaf ac ail ddosbarth uwch ers 2017 yn dangos patrwm o chwyddo graddau a oedd adlewyrchiad o safonau'r dyfarniadau a wnaed. Trafodwyd y data mewn cyfarfodydd gydag uwch reolwyr a staff academaidd y Brifysgol. Roedd y Brifysgol wedi sefydlu Gweithgor Graddau Anrhydedd Da a oedd wedi adrodd i'r Bwrdd Academaidd yn 2015. Roedd wedi ystyried y rhesymau pam roedd cyfraddau is o ddyfarniadau anrhydedd uwch yn cael eu gwneud gan Met Caerdydd o gymharu â phrifysgolion eraill yn y sector. Casglwyd tystiolaeth a ddangosai, er bod y marciau arholiad a ddyfarnwyd i fyfyrwyr Met Caerdydd yn debyg i rai eraill yn y sector, a bod y marciau hynny'n cael eu cadarnhau'n rheolaidd gan arholwyr allanol, roedd y dull a ddefnyddid i gyfuno marciau er mwyn cyfrifo dosbarthiadau graddau yn anfanteisiol i'r myfyrwyr o gymharu ag eraill yn y sector. Cytunodd y Bwrdd Academaidd a chyflwynodd newidiadau i'r rheoliadau academaidd perthnasol er mwyn gwneud arferion y Brifysgol yn gydnaws â sefydliadau cymharol a nodwyd.

92 Roedd y polisi 'dim anfantais' a chyflwyno asesiadau llyfr agored ar-lein yn lle arholiadau wedi'u hamseru a heb eu gweld o fis Mawrth 2020 yn ymatebion gofalus ac angenrheidiol i'r cyfyngiadau a oedd yn angenrheidiol yn ystod pandemig COVID-19. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r dulliau na'r meini prawf a ddefnyddiwyd i ddyfarnu marciau ar gyfer y mathau o asesiadau a oedd yn parhau'n hyfyw ac roedd y newidiadau'n gyson â chanllawiau QAA ar sicrhau safonau academaidd a chefnogi cyflawniad myfyrwyr a gyhoeddwyd yn ystod 2020. Cadarnhaodd arholwyr allanol a byrddau arholi na fu unrhyw newidiadau i'r safonau a gymhwyswyd. Am resymau da, mae gwaith cwrs ac asesiadau llyfr agored yn caniatáu mwy o gyfle i fyfyrwyr ddangos eu bod wedi cyflawni deilliannau dysgu ac felly maent yn cynhyrchu marciau uwch nag arholiadau sydd heb eu gweld. Roedd y tîm adolygu o'r farn bod polisi 'dim anfantais' y Brifysgol yn briodol a bod y gyfran uwch o raddau anrhydedd dosbarth cyntaf ac ail ddosbarth uwch yn fesur cywir o berfformiad y myfyrwyr yn y ffurfiau asesu a oedd yn bosib eu cynnal yng nghyd-destun y pandemig a oedd yn digwydd. Nododd y tîm hefyd bod y patrwm a barhâi o fylchau mewn cyflawniad ar gyfer rhai categorïau o fyfyrwyr yn broblem a welir ar draws y sector ac y bydd y Pwyllgor Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr yn ystyried mesurau i fynd i'r afael â'r rhain yn 2020-21.

#### 4.5 Y dull o ddefnyddio data i hysbysu prosesau gwneud penderfyniadau a gwerthuso

93 Yn y SEAD, roedd y Brifysgol wedi gofyn i'r tîm adolygu werthuso 'defnyddio data i yrru ansawdd' fel un o'r pum maes i ganolbwyntio arnynt a ddewiswyd o fewn yr Adolygiad AGA. Adeg yr ymweliadau adolygu, roedd y Brifysgol hanner ffordd trwy weithredu Strategaeth Ddigidol Un Met Caerdydd 2018-19 i 2022-23. Mae'r Strategaeth yn cael ei goruchwyllo gan Bwyllgor Strategaeth Ddigidol traws-sefydliadol, a gadeirir gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth, ac sy'n adrodd i'r Bwrdd Academaidd a Rheoli ac i PADYM. Mae gan y Strategaeth Ddigidol ddau brif nod: Yn gyntaf, sefydlu amgylchedd technegol a data ble byddai pob myfyriwr ar y campws ac oddi arno yn cael profiad digidol cyson, di-dor, wedi'i bersonoli. Yn ail, galluogi'r holl weithgareddau craidd sy'n cefnogi taith y myfyriwr, a rheolaeth dros ansawdd a safonau, i gael eu hysbysu gan ddata parod a hawdd ei ddefnyddio. Roedd y Brifysgol yn derbyn, ar ddechrau'r prosiect hwn, bod y data yr oedd ei angen ar fyfyrwyr, staff academaidd a gwasanaethau proffesiynol yn cael ei gadw ar ffurfiau amrywiol ac y gallai fod yn anodd cael gafael arno a'i ymgorffori.

94 Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth a chlywsant gan fyfyrwyr a staff bod cynnydd arwyddocaol wedi'i wneud tuag at gyflawni amcanion y strategaeth ddigidol. Cadarnhaodd y myfyrwyr a gwrddodd â'r tîm bod ganddynt fynediad effeithiol at addysgu a dysgu ar-lein, yn cynnwys darlithoedd a seminarau, ac i amgylchedd dysgu rhithwir sy'n darparu'r wybodaeth a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i ddilyn eu rhaglenni astudio ac i gyflwyno'u gwaith i'w asesu. Mae'r systemau hynny wedi dod yn gwbl allweddol yng nghyd-destun pandemig COVID-19 a throsglwyddo'r rhan fwyaf o'r dysgu a'r addysgu i ddarpariaeth ar-lein yn unig. Er bod rhai adroddiadau o systemau heb fod ar gael am gyfnodau byr oherwydd gwallau neu waith cynnal a chadw, ac o rywfaint o amrywiaeth yn y defnydd o'r systemau gan staff academaidd, roedd yn amlwg bod dysgu addysgu ar-lein wedi gweithio'n effeithiol. Yn benodol, adroddodd myfyrwyr a staff bod cymorth ar-lein ynghyd a modiwlau hyfforddiant ar gael yn rhwydd ac yn briodol (gweler hefyd baragraff 45).

95 Mae cynnydd wedi'i wneud ers 2018 o ran cyflwyno data i gefnogi recriwtio a dilyniant myfyrwyr. Gall staff academaidd a gweinyddol fynd at ddangosfyrddau data a chyrchu data amserol, rhaglenni adrodd, nodweddion myfyrwyr - megis rhyw, oed, ethnigrwydd a chymwysterau - ac wedyn cyfraddau cadw a deilliannau a chyrchfannau cyflogaeth graddedigion. Mae dangosfyrddau eraill yn darparu gwybodaeth wedi'i meincodi am raglenni academaidd, yn cynnwys gwerthusiadau modiwlau, canlyniadau'r ACF, cyflawniad a dilyniant myfyrwyr. Darparwyd y ffynonellau gwybodaeth hyn yn awtomatig fel sylfeini data ar gyfer y dull CGRh o gynnal adolygiadau blynyddol, a gyflwynwyd o ddechrau blwyddyn academaidd 2020-21, ac a oedd fel petai'n gweithio'n dda (gweler paragraff 85).

96 Mae cynnydd arwyddocaol wedi bod hefyd o ran darparu adroddiadau dadansoddi dysgu i arweinyddion rhaglenni ac i diwtoriaid personol yn arbennig, gydag adroddiadau ar faterion megis defnydd myfyrwyr o'r amgylchedd dysgu rhithwir, graddau asesiadau, a benthyciadau llyfrau o'r llyfrgell. Roedd gwaith ar y gweill i ychwanegu'r defnydd o ddeunyddiau e-ddysgu, presenoldeb mewn dosbarthiadau a hysbysiadau ynghylch diffyg ymgysylltu (megis peidio â chyflwyno gwaith) yn ogystal â rhyngweithiadau gyda gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr. Fel yr adroddwyd uchod (gweler paragraff 40), clywodd y tîm dystiolaeth gan fyfyrwyr a staff bod y system tiwtoriaid personol yn gweithio'n dda a bod hynny'n rhannol oherwydd bod gwybodaeth fyw ar gael ynglŷn â chynnydd a gweithgaredd myfyrwyr.

97 Roedd dwy ran o'r strategaeth ddigidol yn dal yng nghamau cynnar eu datblygiad. Roedd y Brifysgol wrthi'n gwerthuso cynigion ac yn paratoi i gomisiynu system cofnodion myfyrwyr newydd ynghyd â darparu amserlenni wedi'u personoli i fyfyrwyr. Yn ail, roedd gwaith yn dechrau i gynllunio system rheoli a datblygu cwricwlwm a fyddai'n cefnogi



prosesau ansawdd megis cynllunio a dilysu rhaglenni, integreiddio egwyddorion EDGE, monitro cydnawsedd â strategaethau'r brifysgol, a darparu pecynnau data wedi'u teilwra ar gyfer tîm y rhaglen. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod cynnydd sylweddol wedi bod o ran datblygu a defnyddio data i fonitro taith y myfyriwr trwy'r Brifysgol ac i reoli ansawdd profiad y myfyriwr. Mae gan Strategaeth Ddigidol Un Met Caerdydd 2018-19 i 2022-23 a'r gwaith sydd ar droed i'w gweithredu'r potensial i gyflawni nodau'r Brifysgol. Mae'r tîm adolygu yn cadarnhau'r cynnydd arwyddocaol yn y defnydd o ffynonellau data i gefnogi profiad y myfyriwr.

#### **4.6 Effeithiolrwydd y defnydd a wneir o'r dulliau sicrhau ansawdd i wella'r dysgu a'r addysgu**

98 Mae strategaethau a chynlluniau'r Brifysgol yn canolbwyntio ar wella dysgu ac addysgu ar bob lefel, gyda gweithdrefnau adrodd cadarn. Mae'r Brifysgol yn ymwybodol o'i diffygion - er enghraifft, cyfraddau cadw a dilyniant i gyflogaeth â sgiliau lefel uchel - ac mae'n datblygu strategaethau yn y meysydd hynny. Caiff strategaethau eu monitro gan Fwrdd y Llywodraethwyr, wedi'u hysbysu gan adroddiad ffurfiol rheolaidd gan y Bwrdd Rheoli a'r Bwrdd Academaidd a chan Swyddogion Undeb y Myfyriwr, yr Is-Ganghellor ac uwch-aelodau staff eraill.

99 Mae adroddiadau arholwyr allanol yn gyffredinol yn cadarnhau bod gwerth, perthnasedd a chydlynid rhaglenni yn briodol ac yn gydnaws â'r FHEQ a Meincnodau Pynciau. Rhoddir sylw i unrhyw bryderon a godir gan arholwyr allanol trwy ymatebion tîm i'r adroddiad, mewn Cynlluniau Gwella Rhaglen, a thrwy weithdrefnau adrodd ffurfiol ar lefel ysgol a rheolwyr. Nodir arfer da yn yr un modd ar gyfer rhannu gwybodaeth trwy'r prosesau adrodd ac mewn seminarau, gweithdai a chynadleddau gwella blynyddol.

100 Canfu'r tîm adolygu bod y defnydd sy'n datblygu o ddata sy'n seiliedig ar nodweddion, ymgysylltiad a deilliannau myfyriwr ar draws y Brifysgol trwy ddangosfyrddau data, ynghyd â chymorth amserol i fyfyrwyr, a phrosesau adrodd cadarn ac effeithiol, yn arwain at welliannau effeithiol yn y dysgu a'r addysgu.

#### **4.7 Effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd**

101 Mae'r polisiau a'r gweithdrefnau a ddefnyddir gan y Brifysgol i sicrhau safonau ei dyfarniadau wedi'u hamlinellu'n eglur yn y Llawlyfr Academaidd ac mae'r modd y cânt eu gweithredu yn cael ei fonitro yn systematig ac yn effeithiol gan y Bwrdd Academaidd a'r strwythur pwyllgorau sy'n ei gefnogi yn y Brifysgol a'r ysgolion. Mae'r Brifysgol wedi cymryd gofal arbennig i addasu'r trefniadau ar gyfer rheoli safonau yng nghyd-destun pandemig COVID-19. Gwneir defnydd effeithiol o arbenigedd allanol ar gyfer asesu myfyriwr ac ar gyfer cymeradwyo ac adolygu rhaglenni academaidd. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod rheolaeth dros safonau academaidd yn gadarn ac yn effeithiol.

#### **4.8 Effeithiolrwydd dull y darparwr o'i werthuso ei hun, sy'n cynnwys defnyddio data'n effeithiol i hysbysu'r prosesau gwneud penderfyniadau**

102 Ers 2016, mae'r Brifysgol wedi gwerthuso ac ailstrwythuro ei threfniadau ystyried a gweinyddol ar gyfer rheoli safonau ac ansawdd profiad y myfyriwr. Yn benodol, mae goruchwyliaeth ac effeithiolrwydd y pwyllgorau academaidd allweddol (PASA, PDAYM a PGY) wedi gwella. Ar yr un pryd, mae sefydlu CGA, penodi Deoniaid Cysylltiol Ymgysylltu â Myfyriwr, a datblygiad ffynonellau data mwy hygyrch wedi cynyddu cysondeb ac amseroldeb cymorth i fyfyrwyr a'u dysgu. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod dull y Brifysgol o hunan-werthuso a'i defnydd o ystadegau yn effeithiol.

## 5 Darpariaeth gydweithredol

### 5.1 Nodweddion allweddol dull strategol y darparwr (yn cynnwys gweithgareddau cydweithredol, dysgu ar-lein a dysgu o bell a ddarperir gydag eraill, a dysgu seiliedig ar waith)

103 Dywed y Brifysgol bod ymgysylltu gyda phartneriaid cydweithredol yn allweddol i gyflawni ei uchelgeisiau addysg drawswwladol, ymchwil, ymgysylltu dinesig, datblygu cymunedol ac arloesi. Mae Cynllun Strategol y Brifysgol yn canolbwyntio ar effaith bosibl darpariaeth addysg drawswwladol i gynyddu mudoledd myfyrwyr a staff, ymchwil ryngwladol gydweithredol ac i ddatblygu synergedd rhwng recriwtio oddi ar ac ar y campws; mae ei 'Strategaeth Ryngwladol Edrych am Alan' yn gwneud ymroddiad i ddatblygu partneriaethau cryf ac o ansawdd uchel sy'n creu nifer o fanteision.

104 Mewn cyfarfodydd gyda tîm yr adolygiad, yn dilyn cyfnod o dwf, cadarnhaodd y staff uwch nad yw'r Brifysgol yn bwriadu ehangu ei bartneriaethau addysg drawswwladol, ond ei fod am ddwysau ymgysylltu gyda phartneriaid cyfredol ac am dyfu'r nifer o bartneriaethau gyda Cholegau addysg bellach yng Nghymru i wyth, ac felly'n cynyddu cynnydd myfyrwyr i'r Brifysgol o ysgolion a cholegau. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Brifysgol yn datblygu ei Rwydwaith Colegau Agored ac wedi penodi Arweinydd Rhwydwaith Colegau Agored yn y Gyfarwyddiaeth Gwella Ansawdd (CGA).

105 Nododd y Brifysgol bartneriaethau fel maes sy'n gryf yn ystod yr adolygiad hwn; hysbysodd staff uwch y tîm fod y cryfderau hyn yn cynnwys gwerthoedd y Brifysgol sefydliad wrth ddarparu cyfleoedd i fyfyrwyr na fyddai fel arfer yn cael mynediad at addysg uwch ym Mhrydain, agwedd byd eang y Brifysgol, y mudoledd rhwng partneriaid a'r cyfleoedd i bartneriaid borthi i waith cynllunio a datblygu'r cwricwlwm.

106 Canfu tîm yr adolygiad bod gan y Brifysgol strwythur llywodraethu rheoli ac academaidd priodol ac effeithiol i gyflawni trosolwg o ddarpariaeth gydweithredol. Y Dirprwy Is-Ganghellor sydd â chyfrifoldeb gweithredol dros bartneriaethau (Partneriaethau ac Ymgysylltu Allanol). Y Pwyllgor Darpariaeth Gydweithredol (PDG), is-bwyllgor i'r PASA, sy'n gyfrifol am drosolwg darpariaeth gydweithredol freiniol ac a ddilyswyd. Adolygwyd effeithiolrwydd y PDG yn ystod 2019-20, gan wneud newidiadau i'w gylch gorchwyl ac aelodaeth; mae rôl y PDG parthed partneriaethau colegau addysg bellach yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Dengys cofnodion y PDG drosolwg diwyd o ddarpariaeth gydweithredol, gydag adrodd priodol i'r PASA. Yn 2020, sefydlodd y PDG weithgor i gefnogi ei ymateb i'r pandemig yn cynnwys prosesau trosolwg ar gyfer newidiadau dros dro i'r cwricwlwm ac asesiad, gweithredu'r polisi dim anfantais, a'r dull o gyflawni'r adolygiad cyfnodol. Mae'r Bwrdd Academaidd yn dal i fod â throsolwg dros ansawdd a safonau darpariaeth gydweithredol y Brifysgol, trwy adroddiadau a chofnodion gan PASA a chraffu data fel deilliannau rhaglenni.

107 Tan y pandemig, roedd Pwyllgor Addysg Drawswladol y Llywodraethwyr (GTNEC), wrth adrodd i Fwrdd y Llywodraethwyr, yn ffocysu ar risgiau a manteision datblygiadau newydd ac effeithiolrwydd partneriaethau parhaus. Mewn trafodaethau â llywodraethwyr, dysgodd y tîm ei fod wedi ei sefydlu mewn cyfnod pan roedd darpariaeth addysg drawswwladol y Brifysgol yn ehangu'n arwyddocaol. O ganlyniad i'r newidiadau i lywodraethu yn ystod y pandemig, mae trafodaethau strategol ar bartneriaethau nawr yn digwydd yng nghyfarfodydd Bwrdd y Llywodraethwyr ac mae dyfodol y GTNEC dan ystyriaeth yn rhan o Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd. Cadarnhaodd y Llywodraethwyr ei bod yn parhau i fod yn fodlon fod yr wybodaeth a dderbyniant yn ddigonol iddynt fod yn hyderus bod y partneriaethau yn gweithredu'n effeithiol; mae'r wybodaeth hon yn cynnwys yr Adroddiad Sicrwydd Blynyddol.

108 Ar lefel ysgol, rheolir trosolwg o ddarpariaeth gydweithredol yn briodol trwy'r Pwyllgorau Dysgu ac Addysgu ysgolion neu ble mae gan ysgolion ddarpariaeth gydweithredol arwyddocaol, trwy is-grwpiau sy'n adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgorau Dysgu ac Addysgu a PDG.

109 Mae'r CGA yn cefnogi sicrhau ansawdd a gwelliannau partneriaethau yn weithredol gydag Arbenigwr Darpariaeth Gydweithredol a rheolwr Ymgysylltu â Phartneriaethau yn gweithio gyda'r Rhwydwaith Colegau Agored a chymedrolwyr mewn ysgolion a thiwtoriaid cyswllt. Mae'r CGA hefyd yn gweithio gyda'r tîm Ymgysylltu Byd-eang sy'n canolbwyntio ar reoli perthynas a datblygu busnes. Y tîm Ymgysylltu Byd-eang sy'n goruchwyllo trefniadau astudio dramor. Mae rolau atodol yn hybu trosolwg gweithredol o bartneriaethau, yn cynnwys Partneriaethau Deoniaid Cysylltiol ym mhob ysgol, Rheolwr Partneriaeth wedi ei leoli yn y tîm Ymgysylltu Byd-eang ar gyfer pob partneriaeth addysg draws-wladol, a thiwtoriaid a chymedrolwyr cyswllt yn yr ysgolion.

110 Cynhwysir rheoliadau sy'n llywodraethu partneriaethau cydweithredol yn y Llawlyfr Academaidd sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd. Clywodd y tîm yn gyson gan y Brifysgol a'i bartneriaid fod polisïau, gweithdrefnau a rheoliadau safonol y Brifysgol yn berthnasol i ddarpariaeth gydweithredol; yn gyffredinol roedd partneriaid yn deall y rhain yn dda, ac eithrio'r gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion ac apeliadau academaidd (gweler paragraff 111 isod). Mae Llawlyfr Darpariaeth Gydweithredol cynhwysfawr yn rhoi gwybodaeth allweddol i bartneriaid. Mae partneriaid yn darparu llawlyfrau rhaglen i'w myfyrwyr, gyda'r Brifysgol yn darparu templed ar gyfer hyn. Er bod myfyrwyr wedi cadarnhau eu bod fel arfer yn derbyn y llawlyfrau ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, nododd rhai myfyrwyr y bu oedi cyn iddynt dderbyn y llawlyfr yn y flwyddyn academaidd hon.

111 Mae'r Brifysgol yn sefydlu ei bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer cwynion ac apeliadau academaidd yn ei Lawlyfr Academaidd. Disgwylir i fyfyrwyr sy'n astudio trwy bartneriaid godi cwynion gyda'u sefydliadau ac, os na chaiff ei ddatrys yn foddhaol, gall ysgogi gweithdrefnau cwynion y Brifysgol. Y Brifysgol sy'n dal â chyfrifoldeb ar gyfer apeliadau academaidd. Mewn cyfarfodydd â'r tîm, roedd staff partneriaid a myfyrwyr yn gallu lleisio'r gweithdrefnau hyn yn glir. Esboniodd rhai myfyrwyr bod hyn am nad oeddynt wedi ei defnyddio, ond roeddynt hefyd yn ansicr ble i ganfod naill ai gweithdrefnau lleol neu brifysgol pe byddent eu hangen, tra bod myfyrwyr eraill wedi esbonio eu bod wedi ceisio uwchgyfeirio cwyn i'r Brifysgol yn aflwyddiannus. Nododd cofnodion cyfarfod rhwng staff y brifysgol a phartner addysg draws-wladol, dyddiedig Ebrill 2020, bod myfyrwyr wedi bod yn cysylltu â'r Brifysgol yn uniongyrchol i gwyno, ac yna y gofynnwyd i'r partner aillysgrifennu ei weithdrefn gwyno fewnol; er i adroddiad y cymedrolwr ar gyfer partner colegau addysg bellach, dyddiedig Mawrth 2020, nodi nad oedd myfyrwyr wedi derbyn copi o'u gweithdrefn gwyno fewnol, nododd yr adroddiad hefyd ei bod ar gael ar wefan y partner ac yr atgoffwyd myfyrwyr o hyn yn Hydref 2019. Mewn cyfarfodydd â'r tîm, esboniodd staff o rai partneriaid addysg draws-wladol sut maent yn delio ag apeliadau academaidd yn fewnol. Bydd y Brifysgol yn darparu testun safonol parthed y polisïau a gweithdrefnau hyn, i'w cynnwys yn llawlyfrau myfyrwyr partneriaid, gan ychwanegu gwybodaeth gan y partner parthed ei weithdrefn gwyno ei hun. Yn y llawlyfrau a welwyd gan y tîm, mae'r testun yn gryno iawn ac nid yw'n esbonio'n glir sut y delir ag apeliadau. Mae rhai llawlyfrau yn darparu dolen gyffredinol i Lawlyfr Academaidd y Brifysgol yn unig, sy'n cynnwys sawl cyfrol, yn hytrach na dolen uniongyrchol i'r weithdrefn apelio, tra bod eraill yn cynnwys dolen i Lawlyfr Myfyrwyr y Brifysgol sydd eto'n cyfeirio at y Llawlyfr Academaidd. Mewn sampl o lawlyfrau myfyrwyr 2020-21 un coleg partner, gwelodd y tîm fod y ddolen i weithdrefn gwyno'r coleg yn anweithredol. Mae'r tîm yn **argymhell** fod y Brifysgol yn sicrhau bod ei holl bartneriaid yn deall ei gofynion ar gyfer delio â chwynion ac apeliadau academaidd yn llwyr a bod y gofynion hyn yn cael eu cyfathrebu'n eglur ac yn gyson i'r holl fyfyrwyr sydd gyda phartneriaid.

112 Mae partneriaethau wedi eu llywodraethu'n briodol gan Gytundeb ar gyfer Cydweithrediad Academaidd cyffredinol, ac fel arfer bydd Memorandwm Cytundeb mwy manwl yn weithredol ar gyfer y pum mlynedd gyntaf. Roedd yr enghreifftiau a welwyd gan y tîm yn gyfredol ac wedi eu llofnodi gan y Brifysgol a'r partner. Y Brifysgol sy'n cyhoeddi'r holl dystysgrifau ac adysgrifau. Nid yw Tystysgrifau yn cofnodi lleoliad yr astudiaeth, ond yn hytrach yn cyfeirio at yr adysgrif sy'n cynnwys yr wybodaeth hon.

## **5.2 Gwybodaeth am raddau a natur y ddarpariaeth gydweithredol a chynlluniau ar gyfer newid**

113 Mae darpariaeth partneriaeth y Brifysgol yn cwmpasu nifer o fodelau, yn cynnwys darpariaeth wedi'i dilysu (rhaglenni a ddatblygwyd gan bartner y mae'r Brifysgol wedi eu cymeradwyo), darpariaeth freiniol (rhaglenni sydd wedi eu dilysu'n gychwynnol i'w darparu yn y Brifysgol ac yna'n cael eu darparu gan bartner), cyrsiau byr sy'n cynnwys credydau, dysgu seiliedig ar waith, cytundebau datgan a chynnydd, lleoliadau, trefniadau astudio dramor a phrentisiaethau. Cadarnhaodd staff uwch nad yw'r Brifysgol bellach yn cynnig rhaglenni allgymorth breiniol bellach sy'n cynnwys defnydd o gyfadran chwim, er ei fod wedi ei grybwyll yn y Llawlyfr Academaidd. Mae'r holl raglenni yn cael eu haddysgu ac asesu yn Gymraeg neu Saesneg, gyda rhaglenni ar gael trwy bartneriaethau addysg draws-wladol yn cael eu haddysgu ac asesu yn Saesneg.

114 Wrth gyflwyno'r SEAD, roedd gan y Brifysgol 9329 o fyfyrwyr yn astudio ar 101 o raglenni trwy'r partneriaethau addysg draws-wladol mewn 15 o wledydd, a 173 o fyfyrwyr yn astudio trwy bartneriaid yng Nghymru. Mae darpariaeth yn cynnwys rhaglenni a ddarperir trwy ddau goleg addysg bellach yng Nghymru, 17 partner addysg draws-wladol, 20 trefniant cynnydd, 15 trefniant datgan gyda phedwar o'i bartneriaid addysg draws-wladol sy'n galluogi myfyrwyr yn astudio ar lefel diploma i fynd ymlaen i raglenni breiniol, a 101 o bartneriaid cyfnewid myfyrwyr rhyng-wladol ac UE. Ar hyn o bryd mae tri o'i bartneriaethau addysg draws-wladol allan o addysgu. Mae'r brifysgol hefyd yn cynnig un rhaglen addysgu o bell/cyfunol, sef rhaglen MBA mynediad uwch sy'n galw am ddefnyddio eiddo partneriaid ar gyfer trefniadau goruchwyllo.

## **5.3 Effeithiolrwydd y dull o reoli'r ddarpariaeth gydweithredol gan gynnwys y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr**

115 Mae cymeradwyaeth, monitro ac adolygu darpariaeth gydweithredol yn dilyn gweithdrefnau safonol y Brifysgol; mewn cydnabyddiaeth o'r risg gynyddol sy'n gysylltiedig â phartneriaethau, mae mecanweithiau ychwanegol yn weithredol.

116 Mae cymeradwyo darpariaeth partner a chysylltiedig yn golygu proses gymeradwyo o sawl cam, yn cynnwys fetio cychwynnol, diwydrwydd dyladwy ac asesiadau risg, ac yna, os ceir argymhelliad i fwrw ymlaen, bydd mecanwaith priodol ar gyfer cymeradwyo yn cychwyn. Mae staff partneriaid cydweithredol yn cael eu cymeradwyo yn ystod y dilysiad ac yn parhau wedi hynny, disgwylir i gymedrolwyr neu diwtoriaid cyswllt gymeradwyo unrhyw newidiadau i'r tîm addysgu. Dengys adroddiadau o ddigwyddiadau cymeradwyo bod paneli yn cynnwys o leiaf un panelydd allanol ac, mewn rhai achosion, aelod o'r panel sy'n fyfyrwr. Cynhaliwyd digwyddiadau diweddar yn ystod y pandemig yn rhithiol, er gyda'r un diwydrwydd. Mae PDG yn derbyn adroddiadau o'r digwyddiadau hyn ac fe adroddi ar ddeilliannau'r PASA hefyd. Mae prosesau priodol yn weithredol i gymeradwyo lleoliad campws newydd ar gyfer partner presennol, ac mae diwydrwydd dyladwy cyfnodol yn sicrhau y gall partner barhau i gyflawni ei gyfrifoldebau llawn.

117 Tan y flwyddyn academaidd hon, roedd partneriaid cydweithredol yn cwblhau adroddiadau Adolygiad Rhaglen Blyneddol (ARhB), cyn cyflwyno eu cyflwyno i'r ysgol

berthnasol. Wedi cyflwyno, mae ARhBau partner cydweithredol yn dilyn yr un broses â darpariaeth ar y campws gyda chrynodebau yn cael eu cynhyrchu gan yr ysgolion. Canfu tîm yr adolygiad fod ARhBau partneriaid cydweithredol yn myfyrio ar amrywiaeth o ddata, y ogystal â materion a godwyd gan fyfyrwyr, arholwyr allanol, tiwtoriaid cyswllt neu gymedrolwyr, gyda chryfderau a meysydd i'w gwella hefyd wedi ei nodi. Mae camau gweithredu yn cael eu cipio ac fe adroddir ar gamau gweithredu'r flwyddyn flaenorol. Ar gyfer blwyddyn academaidd 2020-21, fel gyda darpariaeth ar y campws, mae'n ofynnol i bartneriaid gynhyrchu Cynlluniau Gwella Rhaglen (CGRh) syml (gweler paragraff 62). Roedd staff partneriaid yn ymwybodol o'r newid dull hwn gan roi sylwadau positif ar ffocws y CGRh ar welliannau.

118 Tan yn ddiweddar, roedd partneriaid hefyd yn cael eu hadolygu'n flynyddol trwy'r broses Adolygiad Blynyddol o Bartneriaid, yn cwmpasu safbwyntiau busnes ac ansawdd partneriaeth. Roedd yr Adolygiadau yn hysbysu'r Sicrwydd Blynyddol i Lywodraethwyr ac fe'i cyflwynwyd i'r GTNEC. Clywodd y tîm gan staff uwch fod y broses hon wedi dod yn llai pwysig, ac yn dueddol o ddyblygu prosesau eraill, tra bod yr Adroddiad Sicrwydd Blynyddol 2019-2020 i Lywodraethwyr yn nodi bod y broses wedi ei therfynu.

119 Mae'r adolygiad cyfnodol o bartneriaethau fel arfer yn digwydd mewn cylch o bum mlynedd ac yn rhoi sicrwydd bod y bartneriaeth yn gweithredu'n foddhaol, yn unol ag amodau'r cytundebau. Mae rhaglenni partner cydweithredol hefyd yn cael eu hadolygu mewn cylch pum mlynedd yn dilyn prosesau safonol y Brifysgol; gall adolygiad dewisol, yn dilyn yr un broses â'r adolygiad cyfnodol yn ei hanfod, ddigwydd yn gynharach os oes angen addasu rhaglen o fewn y cyfnod pum mlynedd (gweler paragraff 63). Canfu'r tîm bod prosesau adolygu cyfnodol partneriaeth a rhaglen y Brifysgol yn drylwyr, gan ganolbwyntio ar wella'r bartneriaeth neu raglen a phrofiad dysgu'r myfyriwr. Adroddiad ar ganlyniadau o'r prosesau hyn trwy'r PDG a'r PASA. Oherwydd y pandemig, mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu dull seiliedig ar risg i adolygiadau cyfnodol gan ohirio adolygiadau cyfnodol a drefnwyd ar gyfer 2020-21 hyd 2021-22 ble bynnag fo'n bosibl. Ble mae adolygiadau partneriaeth wedi eu trefnu ar gyfer 2020-21, mae'r PDG yn ystyried y rhain ar sail fesul achos.

120 Mae gan y Brifysgol weithdrefn gadarn ar waith ar gyfer pryderon difrifol parthed rhaglen gydweithredol neu bartneriaeth, a ysgogwyd yn fwyaf diweddar yn 2019 mewn perthynas â Phrifysgol Fodern Busnes a Gwyddoniaeth (MUBS) Libanus. Arweiniodd hyn at adolygiad partneriaeth wedi ei deilwra, cynllun gweithredu cadarn a monitro gofalus trwy strwythur pwyllgorau'r Brifysgol, gyda gweithredu'n arwain at welliannau yn ansawdd profiad y myfyriwr.

121 Mae strategaethau ymadael priodol hefyd ar gael i derfynu partneriaeth. Ar hyn o bryd, mae gan y Brifysgol dair partneriaeth allan o addysgu, yn cynnwys partneriaeth hir sefydledig gyda'r London School of Commerce (LSC), y disgwylir fydd wedi ei chwblhau ym Mawrth 2021 ar gyfer rhaglenni a addysgir ac ym Medi 2022 ar gyfer graddau ymchwil. Nododd y tîm yr adrodd rheolaidd a manwl trwy strwythur pwyllgorau'r Brifysgol, gan sicrhau trosolwg cadarn ar gyfer y prosesau allan o addysgu hyn.

122 Canfu'r tîm fod cymedrolwyr a thiworiaid cyswllt yn ganolig i, ac yn gwella, y trosolwg gweithredol, a darpariaeth cefnogaeth academaidd ar gyfer partneriaethau cydweithredol. Adolygwyd y model hwn o gefnogaeth academaidd yn ddiweddar. Mewn trafodaethau â staff yn y Brifysgol, sefydlodd y tîm fod cymedrolwyr (arbenigwyr pwnc) yn gweithio ar lefel rhaglen yn gyffredinol, a thiworiaid cyswllt ar lefel partneriaeth - gyda'r ail wedi eu cefnogi gan arbenigwyr pwnc yn eu hysgolion. Fel arfer bydd cymedrolwyr a thiworiaid cyswllt yn ymweld â phartneriaid o leiaf ddwywaith y flwyddyn, yn ddiweddar yn cyfathrebu'n electronig, ac yn cynhyrchu dau adroddiad, gyda'r cyntaf yn ddatblygiadol a'r ail yn adroddiad llawn, yn adrodd ar safonau academaidd, safon profiad dysgu'r myfyriwr ac yn

nodi unrhyw gamau angenrheidiol i wella darpariaeth. Cyflwynir trosolwg o'r adroddiadau hyn sy'n nodi cryfderau a meysydd i'w gwella i'r PDG. Mae cymedrolwyr a thiwtoriadaid cyswllt yn aelodau o bwyllgorau rhaglenni partner y bydd cynrychiolwyr myfyrwyr partneriaid yn eu mynychu ac sy'n cwrdd â myfyrwyr yn ystod eu hymweliadau (gweler paragraff 72). Maent hefyd yn darparu hyfforddiant i staff partneriaid, gan ychwanegu at weithgareddau a gynigir gan y Brifysgol fel y Gynhadledd Flynyddol i Bartneriaid. Mae rôl y cymedrolwyr a thiwtoriadaid cyswllt yn werthfawr iawn i bartneriaid.

123 Gosodir tasgau asesu a'u cymedroli'n fewnol gan bartneriaid, yna fe'i cymedrolir gan y cymedrolwr neu diwtor cyswllt cyn ei anfon at yr arholwr allanol. Ble bynnag fo'n bosibl, defnyddir yr un arholwr allanol ar gyfer y rhaglen gartref a'r rhaglen freiniol. Mae arholwyr allanol yn cadarnhau cywerthedd safonau ar draws darpariaeth cartref a chydweithredol ac mae staff y partner yn gweld ac ymateb i adroddiadau'r arholwr allanol. Cyflwynir adolygiad blynyddol o adroddiadau arholwyr ar draws rhaglenni cartref a darpariaeth partneriaid i PASA a'r PDG, gan grynhoi arferion da a meysydd i'w gwella.

124 Fel y nodwyd uchod, mae gan y Brifysgol strwythur rheoli a llywodraethu priodol ac effeithiol ar gyfer trosolwg partneriaeth cydweithredol. Mae ei weithdrefnau ar gyfer cymeradwyo, monitro ac adolygu yn hir sefydledig, ac mewn rhai achosion wedi eu gwella ers yr adolygiad diwethaf. Yn gyffredinol mae gweithdrefnau yn unfath ar gyfer darpariaeth ar y campws gyda rhai mecanweithiau atodol yn eu lle fel fo'n briodol. Cynhelir trosolwg diwyd o ansawdd a safonau pan fydd allan o addysgu yn digwydd a ble mynegwyd pryderon difrifol yn 2019 parthed un bartneriaeth ddysg drawswladol, cymerwyd camau priodol ac amserol. Mae'r tîm yn **cymeradwyo** trosolwg graff a chorfforedig o'r partneriaethau addysg drawswladol sy'n sicrhau nad yw safonau academaidd ac ansawdd profiad dysgu'r myfyriwr mewn perygl.

125 Yn gyffredinol, mae partneriaethau colegau yn amodol i'r un mecanweithiau trosolwg ag y nodwyd uchod. Yn ystod ymweliad yr adolygiad, siaradodd y tîm gyda myfyrwyr o'r ddau goleg addysg bellach sy'n bartneriaid cyfredol i'r Brifysgol. Mynegodd myfyrwyr o un coleg foddhad gyda'u profiad dysgu. Fodd bynnag, canfu un tîm fod pedwar o fyfyrwyr ar raglen freiniol gyda'r partner arall eu bod yn anfodlon gyda'u profiad ac, yn benodol, gyda'r modd y deliwyd â chwynion, sut y gwrandawyd arnynt, a gyda lefel trosiant ac ansawdd rhai o'r staff addysgu. Clywodd y tîm gan y Brifysgol fod rhai myfyrwyr ar y rhaglen hon wedi bod yn huawdl iawn ers dechrau'r flwyddyn a sut y cynhaliwyd cyswllt agos gyda'r myfyrwyr a'r ysgol ar lefelau rhaglen. Dengys cofnodion pwyllgor rhaglen Mehefin 2020 bod myfyrwyr wedi codi nifer o faterion. Roedd yr anfodlonrwydd hwn wedi ei adlewyrchu hefyd yn neilliannau ACF 2018-19 gyda'r bodlonrwydd cyffredinol yn 2018-19 yn 27 y cant. Yn 2019-20, wedi cymryd camau i ddelio â deilliannau 2018-19, cododd y bodlonrwydd cyffredinol i 64 y cant, er bod hyn yn dal yn is na chyfartaledd y sector. Ni chodwyd unrhyw faterion yn adroddiad diweddaraf yr arholwr allanol, a gadarnhaodd bod safonau yn briodol. Nododd adroddiad y cymedrolwr a'r cynllun gweithredu cysylltiedig, dyddiedig 30/06/2020, bod mwy nag un garfan o fyfyrwyr wedi mynegi pryderon am safon yr addysgu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r adroddiad yn mynegi pryder bod myfyrwyr yn dal i godi pryderon er gwaethaf camau diweddar, gyda gweithredu pellach wedi nodi ar gyfer adborth modiwl a'r canlyniadau i'w dadansoddi i bennu os oedd y mater hwn wedi effeithio ar gyrhaeddiad myfyrwyr, a gosod dyddiad targed o Fehefin 2021. O ganlyniad i bryderon y myfyrwyr, sefydlwyd cynllun gweithredu rhaglen yn Nhachwedd 2020, a'i ddiweddarau yn Ionawr 2021 i ddelio â staffio, marcio a'i gysondeb, sgiliau astudio, amseru adborth, cyflymder darlithoedd, cynnwys darlithoedd, y polisi dim anfantais a phortffolios. Er bod tîm yr adolygiad yn cydnabod camau gweithredu'r Brifysgol, roedd yn bryderus i'r myfyrwyr y cyfarfu â nhw, er yn sampl bychan, adrodd pryderon parhaus arwyddocaol o ran ansawdd eu profiad. I grynhoi, mae tîm yr adolygiad yn **cadarnhau'r** camau a gymerwyd i ddelio â phryderon y myfyrwyr ar raglen freiniol mewn un partner addysg bellach parthed

ansawdd eu profiad dysgu. O ystyried pryderon parhaus y myfyrwyr hyn, mae'r tîm yn annog y Brifysgol i barhau i werthuso prydlondeb ac effeithiolrwydd y camau a gymerwyd.

126 Mae'r Brifysgol yn cynnig nifer o gyfleoedd dysgu seiliedig ar waith a lleoliadau ac astudio dramor i fyfyrwyr mewn rhaglenni traddodiadol, ac mae hefyd wedi cychwyn ei Brentisiaeth Gradd gyntaf. Cynhwysir canllawiau yn ymwneud â dysgu seiliedig ar waith a lleoliadau yn y Llawlyfr Academaidd. Cynigir lleoliadau neu ddysgu seiliedig ar waith ar gryn dipyn o raglenni'r Brifysgol, gyda rhai yn gysylltiedig i ofynion asiantaethau allanol neu CPSRhau sy'n dilyn prosesau ychydig yn wahanol. Rhoddir cefnogaeth i leoliadau trwy'r tîm Lleoliadau canolog, i sicrhau dull cyson i sefydlu lleoliadau, gan gynnwys, er enghraifft, cyflawni asesiadau risg. Mae cytundebau priodol wedi eu sefydlu gyda darparwyr lleoliadau. Cefnogir myfyrwyr gyda llawlyfrau lleoliad, ac unwaith y byddant ar eu lleoliad fe'i goruchwylir gan staff academaidd yr ysgol berthnasol a fydd hefyd yn ymweld â nhw. Mae rolau a chyfrifoldebau wedi eu sefydlu'n glir yn nogfen 'Canllawiau Arfer Gorau wrth ddarparu dysgu seiliedig ar waith' y Brifysgol ac fe ganfu'r tîm fod pawb oedd yn ymwneud â'r broses yn deall y rhain yn dda. Siaradodd myfyrwyr yn bositif iawn am eu profiadau o leoliadau a'r gefnogaeth a ddarperir gan y Brifysgol, ac fe siaradodd cyflogwyr yn ganmoliaethus iawn am eu profiad o gael myfyrwyr y Brifysgol ar leoliad gyda nhw. Clywodd y tîm hefyd am y gwaith a gyflawnwyd gan y Brifysgol i sicrhau os oedd y pandemig wedi effeithio ar leoliad, fod dewisiadau eraill ar gael. Mae'r tîm yn **cymeradwyo** trefniant a rheolaeth gyson ac effeithiol iawn gweithgareddau lleoliad ar draws y sefydliad.

**QAA2590 - R10477 - Ebrill 21**

© Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2021  
Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL  
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786  
[www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)